**Adroddiad Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**

Ar ôl ei chwblhau, rhaid i'r Bwrdd Diogelu sy'n comisiynu a lle bo'n berthnasol, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, gyhoeddi'r ffurflen hon yn unol â Chanllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) a'i hanfon i Hwb Cydgysylltu ADUS. Peidiwch ag anfon unrhyw lungopïau i'r Hwb Cydgysylltu, rhaid i'r Adroddiad fod yn ei ffurf wreiddiol i'w gynnwys yn Storfa Ddiogelu Cymru.

**I'w gwblhau gan yr Adolygydd:**

**1 Enw'r Bwrdd Diogelu:**

Cwm Taf Morgannwg

***2*** **Enw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol**

Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf

**Enw'r Partneriaid Adolygu Perthnasol** *(pan fo Lladdiad ag Arf Ymosodol wedi digwydd).* Dilëwch os nad yw'n berthnasol:

- Swyddog Adolygu Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Swyddog Adolygu Heddlu De Cymru
- Swyddog Adolygu Heddlu Gorllewin Swydd Efrog
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Gofal Integredig Birmingham a Solihull
- Cyngor Bwrdeistref Dinas Birmingham

**Cyfeirnod unigryw yr ADUS:**

CTMSB OWHR 01/2024

**Ffugenw 1:**
Steven

**Ffugenw 2:**
Person 1 – (P1)

**Ffugenw 3:**
Person 2 – (P2)

**Ffugenw 4:**
Person 3 – (P3)

| |
|---|
| **Ffugenw 5:**<br>Person 4 – (P4)<br><br>**Ffugenw 6:**<br>Person 5 – (P5)<br><br>**Ffugenw 7:**<br>Person 6 – (P6) |
| **Dyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr Adolygiad:**<br>Os nad yw'n hysbys, nodwch hyn.<br><br>**Mis: 12**<br>**Blwyddyn: 2023** **Neu:** Choose an item. |
| **Dyddiad marwolaeth (os yw'n berthnasol):**<br>Os yw'n anhysbys, nodwch hyn.<br><br>**Mis: 12**<br>**Blwyddyn: 2023** **Neu:** Choose an item. |
| **Dyddiad dechrau'r adolygiad (wedi'i gomisiynu):** 19/02/2024<br><br>**Dyddiad cwblhau'r adolygiad** 19/03/2025<br><br>**Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025**<br><br>*Esboniwch unrhyw resymau dros oedi cwblhau'r adolygiad (dylai hyn gynnwys unrhyw oedi ychwanegol heblaw am achosion troseddol).* |

## 3 Amlinelliad o amgylchiadau sydd wedi arwain at yr Adolygiad

**3.1** Cafodd yr atgyfeiriad ei wneud mewn perthynas â digwyddiad, lle llofruddiwyd Steven mewn ffrae lle defnyddiwyd cyllell. Ystyriwyd y dylid trin y digwyddiad hwn fel Lladdiad ag Arf Ymosodol (OWH) gan fod yr ymadawedig dros 18 oed a bod ei farwolaeth wedi'i hachosi gan arf ymosodol, sef cyllell. Penderfynwyd hyn gan amgylchiadau'r digwyddiad ynghyd â'r dystiolaeth ategol a barn arbenigol.

**3.2** Cysylltodd Llywodraeth Cymru â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i beilota'r adolygiad hwn o dan y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) wrth hefyd gael ei arwain gan Ganllawiau Statudol yr Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol (OHWR). Roedd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf a Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn gefnogol iawn i dreialu'r achos hwn o dan y fethodoleg hon, gyda'r nod o wella ymgysylltiad â theuluoedd a dod â dysg o adolygiadau ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Caiff y meini prawf ar gyfer cynnal yr adolygiad yma eu bodloni o dan:

- Adolygiad o Laddiad ag Arfau Ymosodol (OWHR) – i'w gwblhau yn unol â'r Canllawiau Statudol Drafft 2022.[1]
- Proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) 2024.[2]
- Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022.[3]

**Bydd y materion craidd y bydd angen mynd i'r afael â nhw yng Nghylch Gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys:**

- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a darpariaeth gwasanaethau i unigolion trwy Gylch Gorchwyl diffiniedig.
- Galw am gyfraniadau i'r adolygiad gan unigolion ac aelodau priodol y teulu a rhoi gwybod iddyn nhw am agweddau allweddol yn y datblygiadau.
- Nodi argymhellion a dysg ar gyfer asiantaethau.
- Llunio adroddiad i'w gyhoeddi.
- Llunio cynllun gweithredu, i sicrhau bod argymhellion yn cael eu datblygu.

## 4 Ymchwiliadau Cyfochrog

- Mae cwest y Crwner wedi agor ac mae'n parhau.
- Roedd yna ymchwiliad troseddol sydd bellach wedi dod i ben.
- Does dim ymchwiliadau asiantaethau mewnol eraill wedi'u comisiynu.

[1] Adolygiadau Lladd gydag Arfau Ymosodol - GOV.UK (sgroliwch i lawr i fwrw golwg ar y fersiwn Gymraeg)

[2] https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau

[3] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2022/32/contents (Saesneg yn unig)

## 5 Asiantaethau a Ddarparodd Wybodaeth i'r Adolygiad

- Heddlu De Cymru
- Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr (WMP)
- Heddlu Gorllewin Swydd Efrog (WYP)
- Ymddiriedolaeth Plant Birmingham
- Bwrdd Gofal Integredig Birmingham a Solihull (BSOL ICB)
- Cyngor Dinas Birmingham – Carfan Diogelu Addysg
- Cyngor Dinas Birmingham – Think Family
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Gwasanaethau i Oedolion
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Gwasanaethau i Blant
- Rhentu Doeth Cymru
- Redthread
- Tai Cymdeithasol
- Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf
- Uned Atal Trais
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM)
- Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
- Prifysgol De Cymru (PDC).

## 6 Teyrnged Deuluol

<u>Teyrnged i'n Mab</u>
Yn gyntaf oll, hoffwn ddweud pa mor anodd yw mynegi a rhoi mewn geiriau sut rydyn ni'n teimlo am ein mab. Mae bron yn amhosibl.
Roedd yn 30 oed pan gafodd ei lofruddio mewn ffordd greulon, dyn ifanc â chymaint o gariad, deallusrwydd a bywiogrwydd. Roedd yn ŵr bonheddig go iawn, gyda'r galon fwyaf, a hiwmor heintus; roedd yn ddoniol ac yn ddireidus. Roedd yn belydryn o heulwen, yn goleuo unrhyw ystafell yr oedd ynddi, a lle bynnag yr aeth, roedd pawb yn ei adnabod. Dyn ifanc poblogaidd, llawn bywyd, yn llawn swyn a charisma ac yn boblogaidd iawn gyda'r merched. Roedd mor garedig a gofalgar, ac roeddech chi'n cael eich denu at ei wên a'i harddwch.

Roedd yn caru ei deulu yn fawr, yn enwedig ei bedwar o blant, a oedd yn golygu'r byd iddo. Roedd ganddo'i fywyd cyfan o'i flaen ac roedd yn benderfynol o wneud bywyd gwell iddo'i hun a'i blant a bod y 'tad' yr oedd yn dyheu i fod.

Roedd ganddo'i anawsterau a cheisiodd mor galed i oresgyn y rhain. Er gwaethaf ei ymdrechion gorau, talodd y pris eithaf wrth geisio rheoli ei salwch. Roedd ei salwch yn rhoi straen aruthrol ar y teulu ar adegau. Roedd yr amseroedd da yn wych, ond roedd yr amseroedd drwg yn dorcalonnus, wrth geisio cael mynediad a rhoi'r cymorth yr oedd ei angen arno.

Doedd byth 'ofn gwaith' arno a byddai bob amser yn chwilio am waith. Yn anffodus, oherwydd lleoliadau swyddi, roedd yn symud o gwmpas ac felly'n ei chael hi'n anodd cynnal y cymorth oedd ei angen arno i reoli ei salwch. Ar ben hynny, daeth COVID, ac o ran gwaith, caeodd y diwydiant lletygarwch, gan effeithio ymhellach ar ei allu i ymdopi.

Yn ddiamau, ef oedd un o'r bobl fwyaf diffuant y byddech chi erioed yn cwrdd â nhw, roedd yn agored ei galon, roedd ganddo frwdfrydedd a phenderfyniad ac roedd bob amser yn ymdrechu i wella ei hun. Roedd yn awyddus i weithio, ond doedd y 'system' ddim yn caniatáu hyn. Felly, mae'n golygu y bu ganddo ormod o amser yn gwneud dim byd. Defnyddiodd yr amser yn ddoeth a dechrau ennill cymhwyster 'hyfforddiant personol'.

Yn dilyn cyfarfod â'r ymgynghorydd gyrfaoedd, fe wnaethon nhw gynghori y gallai fod yn beth da defnyddio ei gymhwyster Lefel A ym maes Awyrennau i ddilyn ei angerdd, ac arweiniodd hyn ef i Gymru lle dechreuodd y cwrs peirianneg awyrennau. Roedd ganddo freuddwydion mawr, ac fe wthiodd ei uchelgais ef i gyflawni'r rhain, gan ffynnu ar ei gwrs hyfforddi peirianneg awyrenegol ym Mhrifysgol De Cymru. Roedd wrth ei fodd â phopeth yn ymwneud â'r byd awyrennau ac roedd yn ymroddedig i'w astudiaethau. Y tu allan i'r Brifysgol, yn anffodus roedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'i salwch ac i ddod o hyd i'r cymorth angenrheidiol yr oedd ei angen arno.

Rydyn ni wedi clywed straeon am sut y bu'n helpu cyd-fyfyrwyr i ymgartrefu yn y brifysgol, a sut y chwaraeodd ran allweddol wrth ddod â phobl ynghyd a ffurfio grŵp cyfeillgarwch cydlynol. Mae ei ffrindiau yn y brifysgol wedi anfon nifer o negeseuon o gymorth atom ni, ac rydyn ni wedi gwerthfawrogi hynny, ac mae llawer wedi rhannu straeon a dweud y bydd colled ar ei ôl. Cawson ni lawer o gysur o hyn, dywedon nhw y bydd colled fawr ar ei ôl, oherwydd ei galon aur, ei bersonoliaeth hyfryd, a'i garedigrwydd. Byddai bob amser yn mynd allan o'i ffordd, gan sicrhau bod pawb yn iawn ac mae hyn yn dyst i'w gymeriad. Dywedodd llawer o fyfyrwyr eu bod nhw'n colli ei effaith gadarnhaol o ddydd i ddydd, ei fod yn ymroddgar bob amser, gan ddangos gofal gwirioneddol. Roedd yn empathig, yn hoffus ac mae ei golled wedi cael effaith negyddol ar fyfyrwyr a thiwtoriaid fel ei gilydd.

Roedd e, yn fwy na dim, yn caru ei deulu. Roedd eisiau gofalu amdanyn nhw, eu hamddiffyn a'u gwneud nhw'n falch. Fydd e byth yn cael ei anghofio gan y rhai a'i cyfarfu, ac mae colled fawr ar ei ôl. Byddwn ni i gyd yn ei gofio fel dyn ifanc cwrtais, da ei foesau, gyda chalon fawr a synnwyr o hwyl. Yn fwy na dim, bydd yn cael ei gofio gyda chariad, bob munud, o bob dydd.

Rydyn ni'n llwyr groesawu'r adolygiad o *'Laddiad ag Arf Ymosodol'* yma ac rydyn ni wedi ymrwymo i wneud beth bynnag a allwn i gefnogi eraill mewn sefyllfa debyg i'n mab.

## 7 Cefndir yr achos

**7.1** Mae'r achos hwn yn ymwneud â Steven, ond mae'n cynnwys P1, P2, P3, P4, P5 a P6. Roedd Steven o ardal Bradford ac fe symudodd i Gymru i astudio fel myfyriwr hŷn yn byw mewn tŷ amlfeddiannaeth (HMO) wrth astudio ym Mhrifysgol De Cymru (PDC).

**7.2** Mynychodd Heddlu De Cymru alwad a drosglwyddwyd iddyn nhw o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ychydig cyn 8pm ar ddydd Sul ym mis Rhagfyr 2023. D oedd ddi aeth galwad cod coch drwodd bod yna ddyn 30 oed nad oedd yn anadlu, ddim yn ymwybodol ac o bosibl wedi cael ei lofruddio. Daeth yr alwad ffôn gan breswylydd arall yn y tŷ amlfeddiannaeth yr oedd Steven yn ei rannu gyda phedwar oedolyn arall.

**7.3** Aeth swyddogion yr heddlu i gartref Steven, a gwelwyd bod ganddo nifer o glwyfau trywanu yn ardal ei glun, a achosodd waedu sylweddol. Ceisiodd swyddogion atal llif y gwaedu, ond collodd Steven ei fywyd oherwydd faint o waed a gollwyd.

**7.4** Mae'n ymddangos mai'r amgylchiadau yw bod gan Steven ddyled cyffuriau a chredir bod P1, ynghyd â P2 a P3, wedi mynd i'r cyfeiriad i gasglu dyled cyffuriau a chael eu hunain yn rhan o ymrafael y digwyddiad. Daeth P4, P5, a P6 yn rhan o bethau yn dilyn y digwyddiad pan wnaethon nhw gynorthwyo i wneud trefniadau i gludo P1, a oedd wedi cael anafiadau, i'r ysbyty i gael triniaeth feddygol.

**7.5** Cafodd chwe unigolyn o ddiddordeb eu harestio a'u cyhuddo mewn rhyw fodd â'r digwyddiad.

Cafodd un unigolyn ei gyhuddo a'i euogfarnu o lofruddiaeth.

Cafodd dau unigolyn eu cyhuddo o lofruddiaeth – cawson nhw eu rhyddfarnu o lofruddiaeth a dynladdiad.

Cafodd un unigolyn ei gyhuddo o gynorthwyo troseddwr / gwyrdroi cwrs cyfiawnder – cafwyd yn ddieuog.

Cafodd un unigolyn ei gyhuddo o gynorthwyo troseddwr / gwyrdroi cwrs cyfiawnder – cafwyd yn euog o gynorthwyo troseddwr. Cafwyd yn ddieuog o wyrdroi cwrs cyfiawnder.

Cafodd un unigolyn ei gyhuddo o gynorthwyo troseddwr / gwyrdroi cwrs cyfiawnder – cafwyd yn euog o wyrdroi cwrs cyfiawnder. Cafwyd yn ddieuog o gynorthwyo troseddwr.

**7.6** Daeth canfyddiadau post-mortem y Patholegydd Fforensig i'r casgliad bod Steven wedi dioddef chwe chlwyf trywanu yn ardal chwith y glun.

Achos y farwolaeth oedd clwyf trywanu i gefn y glun chwith, gan effeithio ar y Rhydweli Profunda Femoris (mae'r Rhydweli Profunda Femoris yn darparu'r prif gyflenwad gwaed i'r glun).

## 8 Cyfnod amser dan sylw

**8.1** Mae'r adolygiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 18 Awst 2022 hyd at ac yn cynnwys dyddiad y farwolaeth. Mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod o 12 mis a ddefnyddir fel arfer o fewn Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Gwnaeth y Panel Adolygu'r penderfyniad i ymestyn y cyfnod amser dan sylw er mwyn caniatáu dadansoddiad llawn o ddigwyddiadau a chyfranogiad asiantaethau o'r adeg y cofrestrodd Steven ar ei gwrs dewisol ym Mhrifysgol De Cymru.

## 9 Methodoleg

**9.1** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y panel ddydd Iau 11 Ebrill 2024. Cytunodd aelodau'r panel ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad. Bu’r panel yn adolygu'r Cylch Gorchwyl yn gyson drwy gydol y broses. Cyfarfu'r panel saith gwaith yn gyfan gwbl. Cynhaliwyd cyfarfodydd panel drwy Microsoft Teams a thrwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda holl aelodau’r panel, gan feithrin trafodaethau cadarn a dadansoddol a gyfrannodd at y broses adolygu.

**9.2** Roedd y fethodoleg yn ystyried y broses a gynhwysir yng Nghanllawiau Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl a Chanllawiau Statudol Drafft Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol y Swyddfa Gartref.

**9.3** Gofynnwyd i bob asiantaeth ddarparu llinell amser ddadansoddol o wybodaeth eu hasiantaeth o fewn y cyfnod amser penodedig dan sylw. Yn ogystal, cafodd crynodebau mewn perthynas â digwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r llinell amser eu cwblhau a'u cyflwyno, a chaniataodd y rhain i'r Panel Adolygu gael dealltwriaeth gliriach o brofiadau bywyd yr unigolion dan sylw. Adolygodd y Panel Adolygu'r llinell amser gyfunol ac o'u trafodaethau yn y cyfarfodydd panel cytunwyd ar Brif Lwybrau Ymholi ar gyfer yr achos. Mae pob asiantaeth wedi ymgymryd â gwaith pellach i ddadansoddi digwyddiadau o fewn eu llinellau amser.

**9.4** Hysbyswyd y teulu am y fethodoleg a oedd yn cael ei defnyddio drwy lythyr drwy'r swyddogion Cyswllt Teulu a nodwyd. Ar ôl i'r treial ddod i ben, cyfarfu'r teulu ag adolygwyr.

**9.5** Trefnwyd sesiwn ddysgu gydag ymarferwyr allweddol a oedd yn ymwneud â'r dioddefwr ac unigolion arwyddocaol eraill. Cafodd y sawl a oedd yn bresennol yn y sesiwn ddysgu eu nodi gan aelodau'r panel o'u hasiantaethau priodol.

**10 Cysylltiadau ag asiantaethau y tu allan i gyfarfodydd panel a sesiynau dysgu.**

**10.1** Cyfarfu'r cadeirydd a'r adolygwyr â Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr (WMP) y tu allan i'r sesiwn ddysgu drwy gyfarfod dros Microsoft Teams gan nad oedd WMP yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod. Rhoddodd hyn gyfle i drafod eu cyfranogiad, dadansoddi yn erbyn unigolion allweddol, digwyddiadau, a derbyn gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â chyfranogiad WMP. O'r cyfarfod hwn roedd modd i'r adolygwyr ddeall fod WMP wedi defnyddio'r holl arferion ymchwilio a oedd ar gael iddyn nhw i atal troseddoldeb a nodi pryderon, a doedd dim modd cynnwys rhai ohonyn nhw yn yr adroddiad oherwydd natur sensitif arferion gweithredol. Nododd yr adolygwyr arfer da hefyd.

**10.2** Doedd meddyg teulu Steven ddim yn gallu bod yn bresennol yn y sesiwn ddysgu ac fe wnaeth gyfarfod â'r cadeirydd a'r adolygwyr i drafod eu cyfraniad a'u dadansoddiad yn erbyn digwyddiadau allweddol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, nododd y cadeirydd a'r adolygwyr arfer da, ac roedd pawb a oedd yn rhan o'r cyfarfod yn gallu nodi cyfle i ddysgu y cyfeirir ato yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

**10.3** Fe wnaeth y cadeirydd a'r adolygwyr hefyd gyfarfod â Heddlu De Cymru ar eu cais y tu allan i gyfarfod y panel. Y pwrpas oedd bod yn agored ac yn dryloyw gyda'r adolygwyr o'r dulliau plismona perthnasol a oedd wedi'u defnyddio o amgylch gweithgarwch cyffuriau a amheuir, a oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch gweithgarwch yr heddlu nad oedd modd ei ddatgelu yn yr adroddiad hwn, oherwydd natur sensitif arferion gweithredol. O ganlyniad i sesiwn friffio cuddwybodaeth yr heddlu, mae modd i'r cadeirydd a'r adolygwyr gofnodi bod arfer da wedi'i nodi.

**10.4** Fe wnaeth y cadeirydd a'r adolygwyr gyfarfod â'r cynrychiolydd iechyd y tu allan i gyfarfod y panel ym mis Ionawr 2025, oherwydd yn sgil amgylchiadau annisgwyl doedden nhw ddim yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y panel a oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr. Rhoddodd hyn gyfle i'r cynrychiolydd iechyd drafod dysgu a nodwyd o safbwynt iechyd, a fydd yn cael ei ychwanegu at yr adroddiad.

**Prif Lwybrau Ymholi**

- P'un a oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am yr unigolion a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac yn cael ei ystyried yn asesiad, gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol mewn perthynas ag unrhyw bersonau mewn perygl, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad ar gyfer yr unigolyn mewn perygl.

- P'un a oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r unigolion mewn perygl yn gadarn, ac yn briodol ar gyfer y person hwnnw a'i amgylchiadau.

- P'un a oedd y camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol, eu monitro a'u hadolygu ac a oedd pob asiantaeth yn cyfrannu'n briodol at ddatblygu a chyflawni camau gweithredu amlasiantaeth.

- Agweddau llwyddiannus y camau gweithredu, y rhai aflwyddiannus, a'r rhesymau dros hynny. I ba raddau yr oedd asiantaethau'n herio'i gilydd ynghylch effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd tuag at ddeilliannau cytunedig ar gyfer yr unigolyn mewn perygl. P'un a alwyd ar brotocol ar gyfer anghytuno rhwng gweithwyr proffesiynol.

- P'un a oedd dyletswyddau statudol priodol yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r unigolyn mewn perygl a'r teulu wedi'u cyflawni.

- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos yma a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion eraill yn ymwneud â'r cyd-destun).

**Meysydd Canolbwynt Ychwanegol**

- Cynorthwyo a hwyluso gwell dealltwriaeth a dysgu am ddiwylliant Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol, Llinellau Cyffuriau, Camfanteisio, a'r potensial ar gyfer diogelu pawb sy'n gysylltiedig er mwyn nodi unrhyw rwystrau.

- Archwilio a deall o'r achos hwn oblygiadau a graddfa ymdreiddiad camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon o fewn y cymunedau ac unrhyw fesurau rheoli, atal neu gymorth o'i amgylch.

- Ystyried a yw ymchwiliadau trawsffiniol a rhannu gwybodaeth yn ddigon cadarn i reoli risgiau troseddau cyfundrefnol.

- Ystyried y cysylltiad rhyng-gysylltiedig rhwng gwahanol ffurfiau o gamfanteisio gan gynnwys Caethwasiaeth Fodern.

- Unrhyw gysylltiadau a nodwyd rhwng y teimlad o fod yn ynysig oherwydd diffyg ffrindiau a theulu sy'n arwain at fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o adref yn dod yn agored i niwed ac yn agored i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Ystyried sut mae hyn yn cael ei nodi a pha ddarpariaethau sydd ar waith i gefnogi'r unigolion hynny.

- A oes unrhyw enghreifftiau o arfer rhagorol neu arloesol yn deillio o'r achos hwn?

- Tynnu sylw at unrhyw newidiadau perthnasol mewn arfer sydd wedi digwydd mewn unrhyw sefydliad ers yr adeg hon o'r digwyddiad a allai fod wedi arwain at ganlyniad gwahanol.

- Effaith Covid-19.

## 11 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Mynd i'r afael â'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[4] i'r Adolygiad. I gynnwys archwilio rhwystrau i fynediad at wasanaethau yn ogystal ag ystyriaeth ehangach o b'un ai effeithiwyd ar ddarparu gwasanaethau, gan ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol[5].
Cyfeiriwch at:

**Oedran**

(1) Mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig oedran—

(a) mae cyfeiriad at berson sydd â nodwedd warchodedig benodol yn gyfeiriad at berson o grŵp oedran penodol.

(b) mae cyfeiriad at bersonau sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn gyfeiriad at bersonau o'r un grŵp oedran.

(2) Mae cyfeiriad at grŵp oedran yn gyfeiriad at grŵp o bersonau a ddiffinnir trwy gyfeirio at oedran, boed trwy gyfeirio at oedran penodol neu at ystod o oedrannau.

**11.1** Roedd Steven yn 30 oed pan fu farw. Ar adeg y digwyddiad roedd yr unigolion eraill a oedd yn gysylltiedig rhwng 17 a 36 oed.

**11.2** Roedd pedwar unigolyn wedi'u dosbarthu fel Pobl Ifainc (dan 25 oed) ac roedd dau o'r rhain o dan 18 oed ar adeg y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad hwn.

***11.3*** *Mae camfanteisio troseddol ar Blant yn gyffredin mewn llinellau cyffuriau ac yn digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, trin neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed. Mae'n bosibl bod y dioddefwr wedi cael ei gam-drin yn droseddol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Dyw camfanteisio troseddol ar blant ddim yn cynnwys cyswllt corfforol bob amser; gall hefyd ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg.*[6]

**Anabledd**

Mae gan berson (P) anabledd os—

[4] Deddf Cydraddoldeb 2010 Deddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk) (Saesneg yn unig)
[5] Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: trosolwg | LLYW.CYMRU
[6] https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines (Saesneg yn unig)

(a) mae gan P amhariad corfforol neu feddyliol, ac

(b) mae'r amhariad yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor-hir ar allu P i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol.

**11.4** Cafodd Steven ddiagnosis o Syndrom Irlen, ac arweiniodd hyn at anhawster i wneud synnwyr o wybodaeth weledol.

**11.5** Tra'r oedd yn mynychu Prifysgol De Cymru, nodwyd bod gan Steven Ddyslecsia, a rhoddwyd Cynllun Cymorth Unigol ar waith i sicrhau bod yr addasiadau a argymhellwyd yn cael eu gwneud.

**11.6** Roedd gan Steven apwyntiad gyda'i feddyg teulu hefyd mewn perthynas â'i iechyd meddwl i ganfod diagnosis posibl o ADHD, er bod teulu Steven wedi rhoi gwybod i'r adolygwyr ei fod wedi bod yn arddangos symptomau nodweddiadol ADHD, a oedd wedi'u cadarnhau gan ymarferydd preifat, fodd bynnag, ni chafwyd diagnosis ffurfiol erioed.

**11.7** Roedd yn hysbys hefyd fod Steven yn cymryd Gwrth-iselyddion ar gyfer pryder. Nodwyd hefyd fod pobl ychwanegol a oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn yn dioddef o bryder.

**11.8** Roedd yn hysbys bod un unigolyn yn profi symptomau Anhwylder Straen Ôl-drawmatig (PTSD). Mae'r symptomau'n bellgyrhaeddol ac yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gorgynnwrf, ymdeimlad dwys o berygl, ôl-fflachiau o'r digwyddiad/digwyddiadau trawmatig a meddyliau ac emosiynau negyddol.

***11.9*** *"Cogio" (a elwir hefyd yn "oresgyniad dan orfod ar gartref") – tacteg a ddefnyddir gan droseddwyr, fel arfer gwerthwyr cyffuriau, i gymryd drosodd gartrefi unigolion agored i niwed, fel y rhai sy'n gadael gofal neu'r rhai sydd â chaethiwed, problemau iechyd corfforol neu feddyliol, a defnyddio'r eiddo fel canolfan ar gyfer gweithgarwch troseddol. Mae hwn yn nodwedd gyffredin o fodel busnes llinellau cyffuriau a gall ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau megis eiddo rhent a phreifat, llety myfyrwyr, carchardai ac eiddo masnachol.*[7]

**Ailbennu Rhywedd**

**11.10** Nid yw'n hysbys ei fod yn berthnasol ar gyfer yr adolygiad hwn.

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

**11.11** Roedd yn hysbys bod P6 yn Briod.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

**11.12** Ddim yn berthnasol i'r adolygiad hwn

**Hil**

**11.13** Nodwyd bod chwech o'r unigolion yn Brydeinig Gwyn a nodwyd bod 1 unigolyn yn Brydeinig Du.

[7] https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines (Saesneg yn unig)

**11.14** *Ethnigrwydd: caiff pobl o bob ethnigrwydd a chenedligrwydd eu targedu ac mae demograffeg dioddefwyr camfanteisio yn amrywio ledled Cymru a Lloegr. Mewn rhai ardaloedd, mae gor-gynrychiolaeth o bobl o grwpiau ethnig du a chymysg, tra mewn eraill, mae dioddefwyr yn bennaf yn wyn.*[8]

**Crefydd neu gred**

**11.15** Nid yw'n hysbys ei fod yn berthnasol i'r adolygiad hwn

**Rhyw**

Mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig o ryw—

(a) mae cyfeiriad at berson sydd â nodwedd warchodedig benodol yn gyfeiriad at ddyn neu at fenyw.

(b) mae cyfeiriad at bersonau sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn gyfeiriad at bersonau o'r un rhyw.

**11.16** Mae'r unigolion sy'n rhan o'r adolygiad hwn yn cynnwys pump o ddynion a dwy fenyw.

**11.17** *Mae naw deg un y cant o'r rhai sy'n ymwneud â Throseddau Llinellau Cyffuriau a Throseddau Gangiau Cyfundrefnol yn wrywod, fodd bynnag, does dim cynrychiolaeth ddigonol o fenywod yn y data. Mae'n llai tebygol y bydd gwasanaethau'n darganfod menywod yn rhan o bethau, ond gwyddom ei fod yn digwydd, ac efallai y byddan nhw'n cael eu gofyn i gario cyffuriau ac arfau oherwydd eu bod yn llai tebygol o gael eu hamau na dynion.* (htt1)[9]

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

**11.18** Nid yw'n hysbys ei fod yn berthnasol i'r adolygiad hwn

## 12 Mewnbwn y teulu a phrif unigolion:

**12.1** Yn unol â chanllawiau Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a chan ystyried y canllawiau ar gyfer Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol, bu cysylltiad ag aelodau teulu Steven drwy gydol y broses adolygu.

---

[8] https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines (Saesneg yn unig)

[9] https://www.gov.uk/government/publications/county-lines-exploitation-applying-all-our-health/county-lines-exploitation-applying-all-our-health (Saesneg yn unig)

**12.2** Rhoddwyd gwybod i'r teulu am y fethodoleg a oedd yn cael ei defnyddio drwy lythyr dyddiedig 23 Ebrill 2024. Cytunwyd y byddai rhywun yn cysylltu â nhw ar ôl y treial, a rhoddwyd y daflen wybodaeth berthnasol ar Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl iddyn nhw yn esbonio'r broses. Gwnaed hyn drwy'r swyddogion Cyswllt Teulu a nodwyd. Siaradodd y teulu â'r adolygwyr ar ôl i'r treial ddod i ben.

**12.3** Cynhaliwyd cyfarfod cyflwyniadol wyneb yn wyneb gyda thad a llysfam Steven ac un arall gyda'i fam a'i lystad. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar 19 Medi 2024, yng nghartrefi aelodau'r teulu. Yn ystod y cyfarfod, mynegodd yr adolygwyr eu cydymdeimlad diffuant ar ran y cadeirydd a'r panel. Eglurwyd y prosesau ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol i'r teulu, gan gynnwys pwrpas y broses adolygu, beth fyddai'n ei gynnwys, pwy fyddai'n rhan ohoni a sut y byddai'n datblygu. Cytunodd y teulu i ymgysylltu â'r broses adolygu a chadarnhaodd mai eu dymuniad oedd cysylltu â'r adolygwyr yn uniongyrchol ac nad oedden nhw angen eiriolaeth.

**12.4** Gwnaed cysylltiad wedi hynny â'r teulu yn ystod y broses adolygu ac ar adegau allweddol, drwy e-bost, llythyr a dros y ffôn.

**12.5** Rhoddodd y teulu deyrnged deuluol i'r adolygwyr ar gyfer y sesiwn ddysgu ynghyd â ffotograffau. Rhannwyd y teyrngedau a'r ffotograffau gydag aelodau'r panel ac ymarferwyr yn ystod y sesiwn ddysgu.

**12.6** Derbyniodd y teulu wahoddiad i gyfarfod ag aelodau'r panel hefyd.

**12.7** Cynhaliwyd cyfarfod panel ar 28 Tachwedd 2024. Ymunodd teulu Steven, gan gynnwys ei chwaer, drwy ddolen Microsoft Teams. Rhoddodd hyn gyfle i'r teulu gyfarfod â'r panel a chyflwyno rhai meddyliau am ddysg a chyfleoedd a gollwyd i'r panel drwy'r cadeirydd.

**12.8** Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach rhwng yr adolygwyr a'r teulu ar 13 ac 14 Ionawr 2025 i eistedd a mynd trwy ddrafft o'r adroddiad. Esboniodd yr adolygwyr i'r teulu, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, fod yn rhaid aildrefnu cyfarfod y panel a drefnwyd ar gyfer mis Rhagfyr 2024 i fis Ionawr 2025. Serch hynny, gan nad oedden nhw am amharu ar y trefniadau a oedd eisoes ar waith i gyfarfod â'r teulu, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r cyfarfodydd i ddangos yr adroddiad i'r teulu fel yr oedd, a oedd bron â'i gwblhau. Esboniodd yr adolygwyr y byddai rhai diwygiadau posibl o hyd y bydden nhw'n eu gweld yn y drafft terfynol. Roedd holl aelodau'r teulu yn gwerthfawrogi hyn ac yn hapus i ymgynnull.

## 13 Cyswllt ag Eraill

**13.1** Cysylltwyd â P1 drwy lythyr ym mis Hydref 2024 drwy'r Gwasanaeth Carchardai. Roedd y llythyr a'r dogfennau ychwanegol yn rhoi gwybod i P1 fod adolygiad wedi'i gomisiynu. Eglurwyd pwrpas a phroses yr adolygiad ynghyd â gwahoddiad i gyfarfod â'r adolygwyr a'r cadeirydd. Dywedwyd wrth P1 hefyd y byddai cymorth ar gael drwy gydol y broses os oes angen. Trafododd y Gwasanaeth Carchardai ar lafar gyda P1 gynnwys y llythyr a phwrpas yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl/Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol, ond gwrthododd P1 edrych ar yr wybodaeth na chyfarfod ag adolygwyr.

**13.2** Cysylltwyd hefyd â phob unigolyn arwyddocaol arall a oedd yn cynnwys:

P2, P3, P4, P5, P6 a thystion a nodwyd drwy lythyr ym mis Hydref 2024 a'u gwahodd i gyfarfod â'r adolygwyr a'r cadeirydd. Roedd modd i'r llythyr a'r ddogfennaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r unigolion hysbysu pob parti o bwrpas yr adolygiad a'r cymorth a fyddai ar gael iddyn nhw.

Rhowch sylw i Adran 6 'Ymgysylltu â Dioddefwyr, y Teulu a Phrif Unigolion yn ystod y Broses Adolygu' yng Nghanllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a chyfeiriwch ati lle bo'n briodol. Cliciwch ar y ddolen ganlynol a bwrw golwg ar Adran 6: [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-03/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau-statudol-drafft_0.pdf]

Ymgysylltodd y Teulu'n dda drwy gydol y broses adolygu.

## 14 Hanes Teuluol a/neu Wybodaeth Gyd-destunol

**14.1** Roedd Steven yn ddwy flwydd oed pan wahanodd ei rieni geni. Parhaodd Steven i gael perthynas â'r ddau riant. Parhaodd i fyw gyda'i fam ac roedd yn gweld ei dad bob penwythnos. Yn ddiweddarach, treuliodd beth amser yn byw gyda'i dad.

**14.2** Cafodd Steven ddiagnosis o Syndrom Irlen pan oedd yn blentyn, math o anhwylder prosesu gweledol neu ganfyddiadol. Mae gan rywun sydd ag anhwylder prosesu gweledol neu ganfyddiadol anhawster gwneud synnwyr o wybodaeth weledol.

**14.3** Roedd rhychwant sylw Steven hefyd yn fyr iawn, ac roedd yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio am unrhyw gyfnod o amser heb unrhyw beth yn tynnu ei sylw, roedd yn broses barhaus i gael diagnosis o ADHD. Adroddodd y teulu fod ymarferydd preifat wedi gallu cadarnhau bod Steven yn arddangos holl symptomau nodweddiadol ADHD ond ymddengys na chafwyd diagnosis ffurfiol erioed.

**14.4** Gadawodd Steven yr ysgol gydag wyth TGAU; roedd yn unigolyn deallus iawn ond roedd yn rhaid iddo weithio'n galed i ganolbwyntio oherwydd ei rhychwant sylw. Ar ôl llwyddo i gael y graddau cafodd nawdd gyda chwmni awyrennau a gweithiodd fel Criw Caban. Yn ystod y cyfnod hwn y ffurfiodd berthynas a daeth yn dad a symud i'r Alban.

**14.5** Chwalodd y berthynas, a symudodd Steven allan o'r ardal. Yn dilyn y gwahanu bu cyfnod lle'r oedd Steven yn ansefydlog ac yn ymddangos yn ei chael hi'n anodd ymgartrefu mewn unrhyw un ardal am gyfnod hir, gan symud o gwmpas gwahanol ddinasoedd. Daeth Steven yn dad i dri o blant eraill yn ystod y cyfnod hwn o'i fywyd, fodd bynnag, chwalodd y berthynas â'r mamau priodol.

**14.6** Adroddwyd bod Steven wedi defnyddio sylweddau i 'hunanfeddyginiaethu' ei salwch a bod hynny'n ei dro wedi achosi anawsterau ariannol. Roedd Steven yn ddigartref ar adegau ac roedd hefyd yn dibynnu ar feddyginiaeth ar gyfer iselder a phryder yn ystod rhai o'r cyfnodau hyn ond roedd bob amser yn dda ei gyflwyniad.


**14.7** Symudodd Steven i Gymru yn haf 2022 i ddilyn ei angerdd dros y diwydiant awyrennau a dechreuodd gwrs tair blynedd yn PDC. Roedd wedi byw yng Nghymru am 18 mis ac yn mynychu'r Brifysgol ar adeg ei farwolaeth.

## 15 Disgwyliadau'r Teulu

**15.1** Yn ystod y cyfarfod cychwynnol gydag aelodau'r teulu, cytunwyd y dylai'r broses hon ganolbwyntio ar nodi gwersi i fwrw ymlaen â nhw. Trafododd yr adolygwyr hefyd a chadarnhau beth y byddai'r teulu o bosibl yn hoffi ei weld yn deillio o'r adolygiad hwn. Dyma'r pwyntiau a godwyd:

- Beth, os o gwbl, mae modd i fyfyrwyr gael mynediad ato y tu allan i'r tymor os ydyn nhw'n cael trafferth, yn enwedig myfyrwyr sy'n byw yn yr ardal ond nad ydyn nhw'n dod o'r ardal.
- Adolygu trothwyon ar gyfer unigolion sy'n cael trafferth ymgysylltu ag asiantaethau yn dilyn digwyddiad. A ddylai asiantaethau edrych ar bob achos unigol yn ei gyd-destun neu a yw'n fater o un streic ac allan ydyw, yn ôl pob tebyg oherwydd capasiti'r gwasanaeth?
- Sut i atal hyn rhag digwydd i deulu arall.

## 16 Genogram –




## 17 Llinell Amser yr Asiantaeth

**17.1** Fe wnaeth y llinell amser gyfunol gynhyrchu cofnod o wybodaeth asiantaethau gyda dros 60 o gofnodion. Rhannodd y panel adolygu'r llinell amser gyfunol yn ddau gyfnod allweddol, Awst 2022 i 6 Mehefin 2023, yna ar ôl 6 Mehefin 2023 hyd at Ragfyr 2023. Defnyddiwyd y dull hwn i ganiatáu i'r adolygwyr a'r ymarferwyr a oedd yn bresennol yn y sesiynau dysgu ganolbwyntio ar ddigwyddiadau penodol o fewn pob cyfnod amser yn erbyn y Prif Linellau Ymholi y cytunwyd arnyn nhw.

**17.2** Mae'r panel adolygu yn nodi bod y digwyddiadau isod yn gofnodion ffeithiol. Mae dadansoddiad o ddigwyddiadau penodol wedi'i gofnodi yn yr Adran Ymarfer a Dysgu Sefydliadol.

**17.3** Cydnabu'r panel adolygu fod arwyddion drwy gydol y llinell amser lle mae tystion yn ymddangos eu bod yn cael eu bygwth ac yn ofni rhoi tystiolaeth.

**17.4** Cydnabu'r panel adolygu fod yr wybodaeth a rannwyd gan heddluoedd yn llinellau amser yr adolygiad yn gyfyngedig oherwydd sensitifrwydd yr wybodaeth. Mae WMP a Heddlu De Cymru ill dau wedi cyfarfod â'r cadeirydd ac adolygwyr y tu allan i'r panel fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

**17.5** Er mwyn cynorthwyo deall yr adroddiad, mae'n canolbwyntio i ddechrau ar y dioddefwr a'r prif ddiffynnydd. Bydd cofnodion ar linell amser yr unigolion arwyddocaol sy'n weddill yn dilyn yn union wedi hynny.

**<u>Llinell Amser yr Asiantaeth ar gyfer Steven a P1</u>**

**17.6** Ym mis Awst 2022, cofrestrodd Steven ar flwyddyn sylfaen y cwrs BSc. Peirianneg Cynnal a Chadw Awyrennau. Rhoddodd y Brifysgol yr holl wybodaeth berthnasol i Steven am y cymorth sydd ar gael.

**17.7** Ym mis Medi 2022, aeth Steven i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar ôl cymryd 12 o dabledi co-codamol 30/500mg. Datgelodd ei fod yn gor-feddwl ac yn teimlo dan lawer o straen yn mynychu'r coleg ac wedi cymryd y tabledi mewn ymgais i dawelu ei hun a chysgu. Gwadodd Steven unrhyw feddyliau am niweidio ei hun neu synio am hunanladdiad i staff yr ysbyty. Cynghorodd y staff Steven na ddylid defnyddio'r tabledi a gymerwyd at ddibenion cysgu, a'i gynghori i siarad â'i feddyg teulu i gael ailasesiad os oedd mewn hwyliau isel ac angen gwrthiselyddion neu therapi siarad. Ni ddatgelwyd unrhyw beth blaenorol.

**17.8** Ym mis Medi 2022, cyflwynodd P1 i'r ysbyty gydag anaf saethu, cafodd ei drosglwyddo i ysbyty mwy arbenigol oherwydd y math o anaf a chafodd lawdriniaeth. Holodd staff yr ysbyty sut y cafodd yr anaf ac roedden nhw'n awyddus i wybod a oedd yn berson ifanc mewn perygl o gael ei gamfanteisio. Cafodd ei gyfeirio at Redthread* a chafodd gymorth gan weithiwr camfanteisio. Roedd y gweithiwr yn teimlo fod angen sefydlu sut/pam y digwyddodd y digwyddiad hwn ac a oedd risg bellach yn cael ei beri yn ogystal ag anghenion cymorth unigol fel y gallai'r ysbyty sicrhau ei fod yn cael ei ryddhau'n ddiogel. Roedd P1 wedi adrodd mai anaf saethu ddamweiniol yr oedd, ac adroddodd ymhellach nad oedd yn gallu nodi pwy oedd yn gyfrifol gan ei bod hi wedi bod yn dywyll adeg y digwyddiad. **Mae Redthread yn gweithio gyda phlant a phobl ifainc sy'n cael eu heffeithio gan gamfanteisio, trais, problemau iechyd meddwl a chorfforol, meithrin perthynas amhriodol a chaethwasiaeth fodern mewn ysbytai a lleoliadau iechyd.*

**17.9** Doedd gan y Gweithiwr Cymdeithasol o'r adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion ddim pryderon ynghylch anghenion gofal ac roedd yn fodlon bod gan P1 le diogel i fynd iddo. Gan fod P1 yn oedolyn, doedd dim pryderon ynghylch ei allu meddyliol, ac ar ôl ei ryddhau cafodd P1 ei gasglu gan aelodau o'r teulu. Ni chafwyd unrhyw gyfranogiad pellach gan y Gweithiwr Cymdeithasol.

**17.10** Parhaodd Redthread i ymgysylltu ac yn araf adeiladu perthynas â P1 rhwng 12 Medi a 29 Tachwedd 2022.

**17.11** P1 yn mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar 22 Medi 2022 gyda gwendid cyffredinol, ond gadawodd cyn cael triniaeth.

**17.12** Ym mis Hydref 2022, honnodd dau unigolyn i'r heddlu eu bod wedi dioddef trosedd, a dywedon nhw eu bod wedi cytuno i gyfarfod â chyfaill cyffredin; fodd bynnag, aeth tri unigolyn drwgdybiedig i'r lleoliad wedi'u harfogi ag arfau, un â gwn a dau â machetes. Fe orfododd yr unigolion drwgdybiedig y dioddefwyr i mewn i gefn y cerbyd, gan eu gorfodi i fewngofnodi i'w cyfrifon banc, a throsglwyddwyd swm o £10,000 o gyfrif un dioddefwr yn erbyn ei ewyllys. Achosodd yr unigolion drwgdybiedig, a oedd yn meddu ar arfau, anafiadau i'r dioddefwyr trwy ddefnyddio machete, gyrru'r dioddefwyr yn afreolaidd am nifer o oriau cyn cymryd eu ffonau symudol a'u gadael yn y pen draw. Doedd y dioddefwyr ddim yn fodlon darparu datganiadau nac enwi'r unigolion drwgdybiedig gan eu bod yn ofni'r canlyniadau. Roedd yn ymddangos eu bod yn 'adnabod' yr unigolion drwgdybiedig, gan ddatgan eu bod yn rhan o Grŵp Troseddu Cyfundrefnol hysbys.

**17.13** Credwyd bod P1 yn destun o ddiddordeb a chafodd ei arestio, ond cafodd ei ryddhau wedi hynny ar fechnïaeth amodol, wrth i ymholiadau pellach gael eu cynnal. Cafodd yr ymchwiliad ei gau oherwydd anawsterau tystiolaethol, ni chefnogodd y dioddefwyr gamau gweithredu'r heddlu. Doedd dim llinellau ymholi pellach y gellid eu dilyn a dangosodd yr holl ymholiadau a gynhaliwyd nad oedd P1 wedi bod yn rhan o bethau.

**17.14** Ym mis Hydref 2022, datgelodd P1 i weithiwr ieuenctid Redthread ei fod yn cael trafferth gyda'i iechyd meddwl a disgrifiodd symptomau anhwylder straen ôl-drawmatig sy'n awgrymu bod P1 wedi cael ei effeithio gan drawma.

**17.15** Ym mis Tachwedd 2022, yn dilyn datgeliad P1 ym mis Hydref, ffoniodd Redthread P1 i drafod cwnsela. Trafodon nhw ddisgwyliadau a'r symptomau a oedd yn cael eu profi. Rhoddwyd caniatâd cwnsela. Cytunwyd y dylid cynnal cyswllt dros y ffôn wrth ddod o hyd i leoliad addas a diogel. Roedd P1 yn parhau'n agored i wasanaeth cwnsela Redthreads ac yn gaeedig i garfan Ymyrraeth Trais Ieuenctid Redthreads.

**17.16** Ym mis Tachwedd 2022, ymgysylltodd Steven â Charfan Anabledd y Brifysgol, i geisio cymorth ar gyfer dysgu. Cytunwyd ar Gynllun Cymorth Anabledd Unigol gydag addasiadau arholiadau wrth aros am asesiad ar gyfer Anhawster Dysgu Penodol (SpLD). Cadarnhawyd ym mis Ionawr 2023 fod gan Steven Ddyslecsia.

**17.17** Ym mis Ionawr 2023, derbyniodd WMP adroddiad gan ffynhonnell anhysbys am oedolyn gwrywaidd yn rhedeg yn noeth yn ardal Birmingham, ac adroddwyd ymhellach fod y dyn hwn wedi cael ei herwgipio a'i guro. Cafodd y dioddefwr ei gludo i'r ysbyty am ei anafiadau a chafodd driniaeth am losgiadau 3ydd gradd i'w draed, anaf i'r pen, a blaen bys wedi'i dorri i ffwrdd, y ddau wedi'u hachosi gan machete. Sefydlwyd bod y dioddefwr wedi cael ei gadw dan orfodaeth am 5 diwrnod heb fwyd, wedi cael ei glymu a'i atal rhag cael cyfleusterau toiled. Sefydlodd ymchwiliad yr Heddlu fod yr adroddwr a'r dioddefwr yn adnabod ei gilydd. Roedd y dioddefwr yn rhan o weithgarwch Llinellau Cyffuriau a byddai'n dal arfau tanio ar gyfer yr adroddwr, roedd yr adroddwr yn gysylltiedig â 'llinell gyffuriau' hysbys a Grŵp Troseddu Cyfundrefnol hysbys. Credwyd bod cerbyd wedi'i glonio wedi bod yn rhan o'r digwyddiad herwgipio. Derbyniodd teulu'r dioddefwr alwad am bridwerth cychwynnol o £3 miliwn, gan ostwng i £50,000, a gofyn na ddylid cysylltu â'r heddlu. Cynhaliwyd ymchwiliad heddlu helaeth, ac arestiwyd P1 am drosedd herwgipio ynghyd â phedwar dyn arall. Tra yn y ddalfa, rhannwyd cuddwybodaeth yn dweud bod bygythiad i fywyd wedi'i wneud yn erbyn P1 a'r bobl eraill a arestiwyd fel dial am yr herwgipiad. Gwadodd P1 ei fod wedi bod yn rhan o'r digwyddiad yn ystod y cyfweliad, gan ddatgan bod ganddo alibi adeg y digwyddiad. Cafodd ei ryddhau ar fechnïaeth i ddechrau, ond yn dilyn ymholiadau helaeth doedd dim digon o dystiolaeth i gyrraedd trothwy Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer cyhuddo ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

**17.18** Ar adeg yr arestio am yr herwgipiad cynhaliwyd chwiliad cyfreithlon o gyfeiriad P1. Cafodd Blagur Canabis ac offer cyffuriau eraill eu darganfod gan gynnwys bagiau dosbarthu, cloriannau pwyso, swm bach o arian parod a ffonau symudol. Cyfwelwyd â P1 a dywedodd mai at ddefnydd personol yn unig y defnyddiwyd y canabis. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan nad oedd unrhyw siawns realistig o erlyniad.

**17.19** Roedd P1 mewn cysylltiad rheolaidd â chwnselydd Redthread dros y ffôn rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023. Cynigiodd y cwnselydd gymorth a threfnu apwyntiadau, ond ni wnaeth P1 ymgysylltu, oherwydd pryder seicolegol. Cytunwyd ar y cyd â P1 nad dyma'r amser cywir i gael mynediad at gwnsela, rhoddwyd gwybodaeth iddo am asiantaethau eraill a rhoddwyd gwybod iddo y byddai modd iddo gysylltu eto yn y dyfodol pe bai'n teimlo bod angen y cymorth arno.

**17.20** Ym mis Chwefror 2023, gwnaeth meddyg teulu Steven atgyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl. Datgelodd Steven bryder ei fod yn credu ei fod yn dioddef o ADHD. Datgelodd Steven i'r meddyg teulu ei fod wedi methu eistedd yn llonydd am amser hir, bod ei feddwl yn rhuthro a'i fod yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio. Dywedodd fod ganddo ymddygiad byrbwyll ac egni uwch/gorfywiogrwydd. Dywedodd fod ei hwyliau i fyny ac i lawr, a dywedodd ei fod ar feddyginiaeth ar gyfer iselder. Teimlai fod symptomau'n effeithio ar ei astudiaethau.

**17.21** Yn dilyn yr atgyfeiriad gan y meddyg teulu, ysgrifennodd y garfan iechyd meddwl at Steven ar ddau achlysur, ond chawson nhw ddim ymateb gan Steven ac felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan y garfan.

**17.22** Ddechrau mis Mai 2023, derbyniodd Heddlu De Cymru wybodaeth fod Steven yn cyflenwi cyffuriau rheoledig, sef canabis a chocên, i fyfyrwyr eraill yn PDC. Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn cofnodi ymhellach y byddai Steven yn cymryd gorchmynion trwy rif ffôn symudol ac yna'n trefnu i gwrdd â myfyrwyr yn lleol.

**17.23** Cyflwynodd Heddlu De Cymru gais am Fynediad at Ddiogelu Data, a gwnaed gwaith cysylltu a chuddwybodaeth gyda PDC i gadarnhau ei fanylion. Cafodd ymateb ei ddarparu gyda'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'r un diwrnod. Ychwanegwyd y cuddwybodaeth at y Crynodeb Dyddiol o'r Cuddwybodaeth Ddyddiol (DIDS) er ymwybyddiaeth y Swyddogion a'i nodi gan y Swyddog Cuddwybodaeth Lleol. Wedi hynny, cafodd dyfeisiau symudol eu cysylltu â Steven a diweddarwyd marciwr rhybuddio am gyffuriau ar system yr heddlu mewn perthynas â Steven.

**17.24** Ar ddiwedd mis Mai 2023, derbyniodd Heddlu De Cymru guddwybodaeth bellach (ail linyn) bod Steven yn parhau i gyflenwi canabis a chocên i fyfyrwyr eraill yn y Brifysgol gan ddefnyddio rhif ffôn symudol (fel y rhannwyd yn flaenorol). Rhannwyd hyn gyda'r Garfan Plismona yn y Gymdogaeth priodol ar gyfer ymwybyddiaeth Swyddogion, patrolau wedi'u targedu, achosion o nodi neu weld, gofynion cuddwybodaeth a hapwiriadau.

**17.25** Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddwyd canlyniadau'r flwyddyn Sylfaen. Pasiodd Steven.

**17.26** Ym mis Gorffennaf 2023, roedd Steven yn deithiwr mewn cerbyd modur a oedd yn rhan o Wrthdrawiad Traffig Ffyrdd lle adroddwyd bod Steven wedi achosi difrod i gerbyd arall a bygwth lladd gyrrwr cerbyd arall ar ôl iddo fethu â stopio. Yn ddiweddarach, canfuwyd bod Steven ym meddiant cyffuriau rheoledig Dosbarth A, a chafodd ei arestio ar amheuaeth o achosi difrod troseddol, bygwth lladd a meddu ar gyffuriau rheoledig. Yn ystod y cyfweliad, cyfaddefodd fod ganddo gyffuriau yn ei feddiant at ei ddefnydd personol ei hun. Gwrthododd wneud sylwadau ar unrhyw gyhuddiadau eraill.

**17.27** Ym mis Awst 2023, cafodd Steven ei stopio wrth yrru cerbyd modur a chanfuwyd nad oedd ganddo yswiriant a chafodd ei arestio ar amheuaeth o yrru dan ddylanwad cyffuriau. Cymerwyd sampl gwaed a chanfuwyd ei fod yn dangos presenoldeb Cocên a Chanabis, fodd bynnag, roedd y ddau ganfyddiad islaw'r terfyn cyfreithiol felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

**17.28** Ym mis Medi 2023, aeth Steven i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gydag anaf mathru i'w law, a chredwyd iddo gael ei achosi gan ddrws car, gan arwain at boen i gefn y llaw. Fodd bynnag, gadawodd Steven yr adran heb gael ei asesu.

**17.29** Ym mis Medi 2023, cysylltodd Steven â'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn y Brifysgol gan ddefnyddio ffurflen hunangyfeirio ar-lein yn gofyn i gael siarad â rhywun. Siaradodd y Swyddog ar Ddyletswydd â Steven ar y ffôn a threfnodd apwyntiad dilynol gydag Ymgynghorydd Llesiant ar gyfer wythnos yn ddiweddarach. Aeth Steven i'r apwyntiad hwn a chafodd ei gyfeirio ymhellach at garfanau cymorth iechyd meddwl a chwnsela o fewn y Brifysgol gan yr Ymgynghorydd Llesiant. Anfonwyd e-bost dilynol at Steven hefyd gydag opsiynau cymorth perthnasol.

**17.30** Tua diwedd mis Medi 2023, derbyniodd Heddlu De Cymru drydydd llinyn o guddwybodaeth bod Steven yn cyflenwi canabis fel myfyriwr yn PDC. Fel y rhannwyd yn flaenorol, roedd hyn hefyd yn cysylltu Steven â rhif ffôn symudol ac yn ogystal â disgrifiad corfforol, gan gynnwys tatŵ. Cofnododd y Swyddog Cuddwybodaeth Lleol a oedd yn asesu fod y Garfan Plismona yn y Gymdogaeth a'r carfanau Ymateb a oedd yn plismona'r ardal yn ymwybodol o Steven a bod yr Uned Troseddu Cyfundrefnol wedi cael y dasg at ddibenion gwybodaeth.

**17.31** Ym mis Hydref 2023, derbyniodd Heddlu De Cymru alwad gan gyd-letywr Steven yn dweud ei fod yn ysmygu canabis ('weed') yn y tŷ ac wedi gwrthod rhoi'r gorau iddi pan ofynnwyd iddo ac wedi bygwth y cyd-letywr. Cafodd swyddogion eu hanfon er gwaethaf galwad bellach gan y galwr gwreiddiol i ganslo. Aeth Heddlu De Cymru i'r lleoliad, cynnal chwiliad tŷ a siarad â'r ddwy ochr gan gadarnhau nad oedd unrhyw droseddau wedi digwydd.

**17.32** Ym mis Hydref 2023, yn dilyn gwyliau'r haf, cofrestrodd Steven ar flwyddyn gyntaf y cwrs Peirianneg Cynnal a Chadw Awyrennau yn y Brifysgol. Anfonodd Steven e-bost at arweinydd y cwrs i ofyn am gyfarfod. Ymatebodd arweinydd y cwrs ar yr un diwrnod gan gynnig cyfarfod wyneb yn wyneb, a gwnaethon nhw hynny'r diwrnod hwnnw. Dilynodd Steven hyn mewn e-bost at arweinydd y cwrs y noson honno yn diolch iddyn nhw am y sicrwydd a roddwyd yn ystod y cyfarfod.

**17.33** Ym mis Tachwedd 2023, trefnodd Steven apwyntiad arall gyda'r Garfan Gwasanaethau Myfyrwyr a chyfarfu â Chynghorydd Dilyniant. Trafododd Steven ei bryderon ynghylch presenoldeb ar y cwrs oherwydd problemau teuluol ond ei fod yn parhau i fod wedi ymrwymo i lwyddo yn ei astudiaethau. Darparwyd opsiynau cyngor a chymorth, gan gynnwys sut i gael mynediad at y broses Amgylchiadau Esgusodol a Thoriad ar Astudio. Cysylltwyd â'r Ymgynghorydd Llesiant blaenorol a'i gyfeirio at y Garfan Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr i gael rhagor o gyngor. Trefnwyd apwyntiad dilynol gyda Steven i adolygu'r sefyllfa. Anfonodd yr Ymgynghorydd Myfyrwyr e-bost at Steven gyda'r wybodaeth ddiweddaraf, yn cadarnhau ei fod ar y rhestr aros am gwnsela a chymorth iechyd meddwl ac y byddai'n clywed maes o law. Cyfarfu Steven ag Ymgynghorydd Ariannol i Fyfyrwyr a thrafod y posibilrwydd o leihau credydau cwrs. Rhannodd yr Ymgynghorydd Ariannol i Fyfyrwyr eu cyngor a'u harweiniad gyda'r Ymgynghorydd gwreiddiol. Ni fynychodd Steven y cyfarfod dilynol gyda'r Ymgynghorydd Dilyniant, anfonon nhw e-bost at Steven a rhannu'r ddolen i ail-drefnu apwyntiad a gwahodd gohebiaeth e-bost bellach gyda chwestiynau.

**17.34** Ym mis Rhagfyr 2023, derbyniodd Heddlu De Cymru ragor o wybodaeth bod Steven a dyn hysbys arall yn defnyddio dyn lleol i storio a dosbarthu cyffuriau rheoledig ar eu rhan. Aseswyd a gwerthuswyd y cuddwybodaeth a chafodd y tri unigolyn eu cysylltu'n electronig fel partneriaid.

**17.35** Cysylltodd Heddlu De Cymru â Rheolwr Cyfleusterau'r Brifysgol yn gofyn am fanylion Steven yn dilyn digwyddiad a arweiniodd at farwolaeth Steven. Darparwyd gwybodaeth i Heddlu De Cymru ar yr un diwrnod.

**17.36** Ym mis Rhagfyr 2023, aeth P1 i'r ysbyty gyda rhwygiadau i'w law, gan adrodd ei fod wedi bod yn chwarae o gwmpas gyda chyllell gegin. Roedd gan P1 nifer o rwygiadau i'w law chwith, a chafodd ei atgyfeirio at yr arbenigwr dwylo, lle cafodd ei dderbyn wedi hynny am ymyrraeth lawfeddygol. Oherwydd y cyflwyniad, rhoddodd staff yr ysbyty wybod i WMP fod P1 wedi cael ei dderbyn. Cafodd staff yr ysbyty wybod, os fyddai P1 yn cael ei symud, y dylid hysbysu'r heddlu ar unwaith, ac yn ogystal â hyn, ni ddylai staff ddatgelu lleoliad P1 i unrhyw un.

**17.37** Yn dilyn llawdriniaeth, cafodd P1 ei arestio wedi hynny. Ymwelodd Redthread â P1, a chytunodd i weithio gyda nhw, o hyn ymlaen. Rhyddhawyd P1 i Ddalfa'r Heddlu gyda chyngor wedi'i roi ar ofalu am y clwyfau.

**Llinell Amser yr Asiantaeth ar gyfer Pob Parti Arall**

**17.38** Ym mis Hydref 2022, deliodd Heddlu De Cymru â throsedd a adroddwyd lle cafodd pwrs heb neb yn gofalu amdano yn cynnwys swm mawr o arian ei ddwyn o fainc ar y stryd. Yn dilyn ymholiadau ymchwiliol a lluniau teledu cylch cyfyng, caiff P2 a dyn eu hadnabod a'u harestio. Cyfaddefodd P2 i'r drosedd o ladrad a chafodd ei gyfeirio at Banel y Biwro Ieuenctid, oherwydd cymeriad glân blaenorol, derbyniodd P2 Datrysiad Adferol Ieuenctid yn ddiweddarach. (*Mae Datrysiad Adferol Ieuenctid yn opsiwn y tu allan i'r llys i'r heddlu ddelio â throseddau ac anhrefn bach a gyflawnir gan blant 10–17 oed.)*

**17.39** Gweithiodd y System Cyfiawnder Ieuenctid gyda P2 ar y Datrysiad y Tu Allan i'r Llys rhwng Mehefin 2023 a Hydref 2023, ar gyfer y drosedd. Cafodd gwaith ei gwblhau a rhyddhad cynnar o'r ymyrraeth ei roi o ganlyniad i ymgysylltiad ac ymddygiad da.

**17.40** Ym mis Tachwedd 2022, derbyniodd Heddlu De Cymru adroddiad, ac mae'n dod i'r amlwg bod P2, a grŵp o bobl ifainc dan oed yn meddu ar alcohol, yn ymddangos yn feddw, ac yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Cafodd P2 ei gymryd adref at y rhieni a chafodd ffurflen atgyfeirio ymddygiad gwrthgymdeithasol ei chwblhau a'i chyflwyno. Cafodd Llythyr Rhybudd Cyntaf Cam 1 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ei anfon at rieni wedi hynny.

**17.41** Ym mis Mai 2023, cysylltodd Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) â'r Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau yn y Gwasanaethau i Blant gan ddatgelu bod galwr dienw wedi adrodd pryderon ynghylch perthynas gwrywaidd a oedd yn byw mewn cartref teuluol lle mae pobl ifainc yn bresennol. Honnir bod y dyn yn ysmygu canabis, yn cymryd cocên, yn cael ei atynnu at ferched 15 oed ac mae ganddo hanes o gam-drin domestig. Oherwydd yr wybodaeth gyfyngedig ynghylch adnabod y bobl dan sylw, cynghorwyd Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) i wneud atgyfeiriad ar unwaith i'r heddlu ac atgyfeiriad dilynol i'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

**17.42** Sefydlodd y Gwasanaethau i Blant fod gan y dyn a nodwyd hanes sylweddol a'i fod yn risg i'w blant ei hun a oedd wedi bod yn cael sylw'r Gwasanaethu i Blant. Roedd y cyfeiriad a ddarparwyd yn wahanol i'r un a gofnodwyd. Doedd dim hanes o niwed rhywiol yn bresennol, ac roedd y camddefnyddio sylweddau yn hanesyddol. Ni chymerwyd unrhyw gamau. Rhannodd Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) wybodaeth gyda Heddlu De Cymru a chafodd ei gofnodi fel 'arhoswch am Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd am yr wybodaeth ddiweddaraf'.

**17.43** Derbyniodd Heddlu De Cymru e-bost gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) ym mis Mai 2023, mewn perthynas â'r pryderon ynghylch y perthynas gwrywaidd. Aeth swyddogion i siarad â'r teulu ynglŷn â'r wybodaeth. Dywedodd y teulu ei fod yn alwad faleisus ond fe wnaethon nhw dderbyn bod y dyn yn ysmygu canabis ond nid yn y tŷ nac o gwmpas y plant. Rhiant y plant yw P5, ond mae'r plant yn byw gyda'u mam-gu. Gwnaeth swyddogion wiriad trylwyr o'r tŷ ac roedden nhw'n fodlon nad oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw ddefnydd o gyffuriau. Mae gan bob unigolyn dan sylw ystafelloedd gwely ar wahân yn yr eiddo sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Dim pryderon am ddiogelwch na lles y plant. Siaradodd y swyddogion â'r plant ac fe gadarnhaon nhw nad yw'r dyn erioed wedi bod yn amhriodol tuag atyn nhw ac nad yw'n ysmygu cyffuriau o'u cwmpas.

**17.44** Cyflwynodd yr heddlu Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau i Blant ac a gysylltwyd ag atgyfeiriad Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) uchod a nodwyd bod yr heddlu wedi ystyried yr alwad yn faleisus ac na nodwyd unrhyw bryder. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach. Doedd Heddlu De Cymru ddim yn ymwybodol bod y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) eisoes wedi e-bostio'r Gwasanaethau i Blant, pe bai hyn wedi bod yn hysbys byddai'r Heddlu wedi cysylltu â'r Gwasanaethau i Blant.

**17.45** Ym mis Medi 2023, derbyniodd y Gwasanaethau i Blant Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd ynghylch adroddiad Unigolyn Coll (MISPER) ar gyfer dyn ifanc a gafodd ei ddarganfod yng nghartref P2. Ni ddatgelwyd unrhyw droseddau gan y dyn ifanc a ddywedodd ei fod wedi methu'r cyrffyw. Dim pryderon diogelu wedi'u rhannu. Ni chymerwyd unrhyw gamau.

**17.46** Ym mis Mai 2023, gwnaeth Gweithiwr Prosiect ar gyfer P6 atgyfeiriad at y Garfan Iechyd Meddwl. Roedd P6 wedi cael diagnosis o Anhwylder Deubegynol yn flaenorol yn Lloegr. Cyfaddefodd P6 ei fod yn ei chael hi'n anodd rheoli ei emosiynau ac wedi rhoi'r gorau i gymryd meddyginiaeth sawl mis yn ôl ar ôl teimlo'n well hebddo. Gwnaeth P6 ddatgeliad i staff mewn perthynas â cham-drin plant yn hanesyddol gan ddatgelu y cafodd ei guro'n rheolaidd fel plentyn.

**17.47** Ym mis Mehefin 2023, cafodd P6 asesiad gyda'r Garfan Iechyd Meddwl, a dangosodd hyn fod P6 wedi cyflwyno ei hun i'r ysbyty yn 2014-15 lle gwnaeth staff meddygol ddiagnosis o Anhwylder Personoliaeth Ffiniol i P6. Roedd P6 hefyd yn aros i gael ei asesu am Awtistiaeth. Datgelodd P6 ddefnydd rheolaidd o ganabis ac adroddodd fod hyn yn helpu i gynnal ffocws a lleihau pryder. Roedd P6 hefyd wedi bod yn ymwneud â'r heddlu ar ychydig o achlysuron dros y blynyddoedd, gyda phob trosedd yn rai o natur dreisgar. Cafodd ei arestio'n flaenorol am Ddifrod Troseddol a Gwir Niwed Corfforol (Cam-drin Domestig a oedd yn cynnwys tagu nad yw'n angheuol). Cafodd P6 ei ddedfrydu am Wir Niwed Corfforol a derbyniodd 12 mis o garchar, wedi'i ohirio am gyfnod o 18 mis. Cafodd cyfeirio ac arweiniad ei gynnig mewn perthynas â rheoli emosiynau a sylweddau, dywedodd P6 y byddai'n mynd at y meddyg teulu a derbyniodd gynnig o gymorth ynghylch camddefnyddio sylweddau. Cwblhawyd asesiad corfforol hefyd.

**17.48** Ym mis Hydref 2023, ni aeth P6 i apwyntiad gyda'r Garfan Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol. Cafodd llythyr ei anfon at y Meddyg Teulu a P6, i roi gwybod am apwyntiad a fethwyd a'r rhyddhad dilynol. Cynghorwyd i ailgyfeirio os oes angen y gwasanaeth o hyd.

**17.49** Ym mis Tachwedd 2023, cafodd tenantiaeth newydd ei chynnig a'i dyrannu i P6 a symudodd o'r Hostel. Cynigiwyd Cymorth Tenantiaeth i P6 ond gwrthododd.

**17.50** Ym mis Mehefin 2023, arestiodd Heddlu De Cymru P4 a dyn a oedd yn hysbys am ddelio cyffuriau mewn cyfeiriad preswyl yn y cyffiniau. Chwiliodd Heddlu De Cymru yr eiddo, a daethpwyd o hyd i swmp o ganabis o fewn y cyfeiriad, gan arwain at arestio'r ddau unigolyn am feddiant gyda'r bwriad o gyflenwi. Cafwyd hyd i swm mawr o arian parod yn ddiweddarach yng nghyfeiriad P4 a oedd yn cefnogi'r drosedd. Gwadodd y ddau unigolyn drosedd, a chafodd y ddau eu rhyddhau dan ymchwiliad yn dibynnu ar dystiolaeth arbenigol a chyngor Gwasanaeth Erlyn y Goron. Derbyniodd PDC hysbysiad am arestio P4 drwy e-bost. Cafodd Panel Asesu Risg ei gynnull gan PDC a chafodd y canlyniad ei gyfleu i P4.

**17.51** Ym mis Medi 2023, cafodd PDC ddiweddariad pellach gan Heddlu De Cymru ynghylch P4 drwy e-bost, i ddatgan bod P4 wedi'i Ryddhau Dan Ymchwiliad. Cynhaliwyd Panel Asesu Risg y Brifysgol. Cafodd canlyniad y Panel Asesu Risg, a gyfyngodd fynediad i rai rhannau o'r campws, gan gynnwys yr undeb a neuaddau'r myfyrwyr, ei gyfleu i P4.

## 18 Sesiwn ddysgu

**18.1** Cynhaliwyd sesiwn ddysgu a ddaeth ag ymarferwyr rheng flaen o asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r achos ar draws y siroedd ynghyd. Cafodd y sawl a oedd yn bresennol yn y sesiwn yma eu nodi gan aelodau'r panel ar gyfer eu hasiantaethau priodol.

**18.2** Rhoddodd y sesiwn ddysgu gyfle i weithwyr proffesiynol fyfyrio ar eu cysylltiad â'r dioddefwr ac unrhyw unigolion arwyddocaol eraill gyda'r gobaith o nodi unrhyw systemau a dysgu sefydliadol. Arweiniwyd y sesiwn ddysgu gan yr adolygwyr a'r cadeirydd.

**18.3** Cyn y sesiwn ddysgu, rhoddwyd copi o'r llinell amser gyfunol i'r gweithwyr proffesiynol, a gwybodaeth am amgylchiadau'r achos a'r broses adolygu a oedd yn cael ei chynnal. Cafodd gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol yn y sesiynau dysgu eu briffio gan eu haelod panel perthnasol yn unol â chanllawiau Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

**18.4** Er mwyn hwyluso'r sesiwn ddysgu, rhannodd yr adolygwyr y llinell amser yn ddau gyfnod amser allweddol. Roedd pob cyfnod amser yn nodi digwyddiadau allweddol i'w hystyried a'u trafod gan ymarferwyr yn ystod y sesiwn ddysgu. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol yn y sesiwn ddysgu sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

**18.5** Hoffai'r adolygwyr ddiolch i'r holl ymarferwyr am eu presenoldeb yn y sesiynau dysgu a'u cyfraniad at y ddysg a nodwyd yn y broses adolygu.

## 19 Ymarfer a dysgu sefydliadol:

**19.1** Yn yr adran ganlynol, roedd y panel adolygu yn edrych ar ddigwyddiadau rhwng 18 Awst 2022 a dyddiad y farwolaeth. Hysbyswyd y Panel Adolygu y byddai angen i ddadansoddiad o'r digwyddiadau hyn ystyried eu bod wedi digwydd mewn gwahanol siroedd ledled Cymru a Lloegr a'u bod o bosibl â gwahanol bolisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth.

**<u>Arfau Ymosodol / Troseddau Cyllyll</u>**

**19.2** Roedd Steven yn ddioddefwr lladdiad gan arf ymosodol. Cafodd ei drywanu sawl gwaith yn ardal ei glun, a arweiniodd at farwolaeth ar ôl colli llawer iawn o waed. Roedd yn amlwg o gyflwyniad Steven yn dilyn y digwyddiad ac o'r dystiolaeth yn y gwrandawiad troseddol fod Steven wedi derbyn bygythiad sylweddol o niwed cyn digwyddiad yr ymosodiad a arweiniodd at ei farwolaeth. Yr hyn sy'n amlwg yw ei fod wedi ceisio amddiffyn ei hun rhag anaf trwy ddyfeisio pren fel arfwisg corff i amddiffyn y torso. Nid yw'n hysbys pam na wnaeth Steven rybuddio unrhyw asiantaeth am unrhyw fygythiadau sylweddol. Ymddengys bod hyn yn thema drwy gydol yr adolygiad hwn.

**19.3** O fis Medi 2022 hyd at fis Rhagfyr 2023 mae'r adolygiad hwn wedi nodi sawl digwyddiad ar draws y siroedd dan sylw, lle defnyddiwyd arfau ymosodol ac achosi niwed sylweddol i unigolion. Bu'r heddlu’n ymwneud â phob digwyddiad, gan gynnwys digwyddiad y tu allan i’r sir lle’r oedd P1 ei hun yn destun bygythiad difrifol i’w fywyd, i’r fath raddau fel bod yr heddlu yn yr ardal honno wedi cyflwyno rhybudd bygythiad i fywyd iddo. Cyhoeddir hysbysiad bygythiad i fywyd gan yr heddlu pan ganfyddir cuddwybodaeth am fygythiad gwirioneddol ac uniongyrchol i unigolyn ac er gwaethaf cyfranogiad yr heddlu mae'r bygythiad yn parhau. Mae'n amlwg yn yr adolygiad hwn, er bod yr unigolion yn ddioddefwyr bygythiadau sylweddol o drais difrifol a bod P1 wedi derbyn anafiadau sylweddol gan gynnwys clwyf saethu, nad oedden nhw ac na fydden nhw'n adrodd am ddigwyddiadau nac yn ymgysylltu ag unrhyw ymchwiliad. Yr hyn sydd hefyd yn arwyddocaol yw nad oedd tystion i'r ymosodiadau treisgar iawn hyn am ymgymryd ag ymchwiliadau'r heddlu, felly chafodd dim achos troseddol ei gynnal oherwydd diffyg tystiolaeth.

**19.4** Roedd P1 yn cael ei ystyried yn destun diddordeb ym mhob digwyddiad, gan gynnwys un lle nodwyd yn ddiweddarach fod bygythiad i fywyd P1 ei hun. Oherwydd anawsterau tystiolaethol, ni ddygwyd unrhyw gamau yn erbyn P1, tan y digwyddiad ym mis Rhagfyr 2023 a arweiniodd at arestio ac yna euogfarn.

**19.5** Nodwyd P1 fel person â thueddiad sylweddol at Gangiau Stryd Trefol, Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a thrais ond ni chafodd ei fapio'n unigol i Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol. Cafodd ei fapio gan WMP fel testun mewn Gangiau Stryd Trefol, yn seiliedig ar ei gysylltiadau, digwyddiadau yr oedd yn rhan ohonyn nhw a dillad a wisgodd. Nododd y panel fod P1 yn ddioddefwr yn ei rinwedd ei hun ac yn debygol o fod wedi cael ei orfodi i recriwtio eraill neu weithredu ar gyfarwyddyd eraill, sy'n thema gyffredin mewn grwpiau troseddu cyfundrefnol.

**19.6** Roedd WMP wedi cydnabod P1 fel testun o ddiddordeb fel troseddwr a dioddefwr ac roedd marcwyr ar ei gyfeiriad cartref i'w ddiogelu a rheoli'r risg bosibl iddo.

**19.7** Mae'n amlwg bod gwahaniaethau'n amlwg rhwng ardaloedd heddlu, a'r hyn y bydden nhw efallai yn ei ystyried yn ddigwyddiadau a throseddau lefel isel, oherwydd cyfrolau uwch o droseddau difrifol sy'n cynnwys arfau ymosodol, troseddau gangiau a chyhuddiadau / arestiadau yn yr ardaloedd dan sylw. Roedd yn amlwg yn yr adolygiad hwn fod WMP yn ymdrin â lefel uwch o droseddu na Heddlu De Cymru sy'n cynnwys Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a Gangiau Stryd Trefol sydd â thueddiad uwch i gynnwys troseddoldeb mewn perthynas ag arfau ymosodol. Gan eu bod yn ymdrin â nifer uchel o droseddau difrifol sy'n ymwneud ag arfau ymosodol o fewn diwylliannau gangiau, mae'n bosibl y gallai WMP ystyried bod agweddau eraill ar droseddoldeb, megis troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau o fewn y Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a Gangiau Stryd Trefol, yn drothwy is.

**19.8** Cyflwynodd Adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 Fesurau Arbennig i hwyluso'r gwaith casglu a rhoi tystiolaeth gan ddioddefwyr a thystion sy'n ddiamddiffyn ac sy'n cael eu bygwth yn ystod achosion llys mewn rhai amgylchiadau. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi rhwystrau posibl i ddioddefwyr a/neu dystion sy'n adrodd am fygythiadau difrifol o niwed, gwir niwed difrifol iddyn nhw eu hunain ac amharodrwydd i ymgysylltu ag ymchwiliadau'r heddlu.

Gallai hyn fod am lawer o resymau, ond mae'n ymddangos o'r adolygiad hwn y gall ofn a bygythiad atal unigolion rhag ymgysylltu.

**19.9** Mae modd i Wasanaeth Personau dan Amddiffyniad y DU (UKPPS) amddiffyn tystion mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol a nodwyd yn yr adolygiad hwn. Yn benodol, yn yr heddlu'r tu allan i'r sir mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn fusnes dyddiol. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn i bobl gytuno â'r mesurau hyn. Mae gan droseddwyr hefyd yr hawl i adnabod eu cyhuddwr ac er bod modd gwneud ceisiadau am orchymyn llys yn atal datgeliad, mae modd i'r cyhuddwr barhau i wneud cais eto fel nad oes byth modd rhoi sicrwydd i dystion na fyddan nhw'n cael eu hadnabod. Mae nifer o rannau rhyngweithredol i'r ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â'r materion hyn, ond roedd y panel yn ystyried mai'r brif agwedd oedd bod y system cyfiawnder troseddol yn wrthwynebol.

**19.10** Cafodd y panel wybod am elusennau a ariennir gan Unedau Lleihau Trais lleol sy'n gweithio gydag ysbytai lle mae troseddoldeb ac anafiadau arfau ymosodol mewn rhai ardaloedd, sef dinasoedd lle mae niferoedd cynyddol a phryderon ynghylch y math hwn o drosedd. Mae Redthread yn elusen genedlaethol ac mae wedi'i lleoli yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, gan ddarparu gwaith trawsnewidiol mewn ysbytai a lleoliadau iechyd. Maen nhw'n gweithio gyda phobl ifainc sy'n cael eu heffeithio gan gamfanteisio, trais, problemau iechyd meddwl a chorfforol, meithrin perthynas amhriodol a chaethwasiaeth fodern. Mae Redthread yn gweithio ochr yn ochr â staff y GIG a gweithwyr proffesiynol eraill mewn Adrannau Brys i ymgysylltu â phobl ifainc a rhoi cymorth iddyn nhw, gyda'r nod o leihau trais difrifol. Roedd Redthread wedi'i leoli yn yr ysbyty lle derbyniwyd P1 yn dilyn digwyddiad difrifol. Neilltuwyd gweithiwr camfanteisio i P1 a ddarparodd cymorth a gwneud atgyfeiriad ar gyfer cwnsela, a ddechreuwyd ganddyn nhw.

| |
|---|
| **19.11** Sefydlodd Uned Atal Trais De Cymru (VPU) gynllun llywio ysbytai yn yr Adran Achosion Brys yng Nghaerdydd ac Abertawe. Mae'r Carfanau Atal Trais hyn yn cynnwys nyrsys ac ymarferwyr ieuenctid sydd wedi'u lleoli mewn Adrannau Brys ac yn rhoi cymorth i ddioddefwyr ifainc trais difrifol ar adegau tyngedfennol, gan ddarparu gofal cymunedol parhaus i atal ail-erledigaeth a dial. Datgelodd dadansoddiad o ddata a gafwyd o Operation Sentinel o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2024 3,918 o ddigwyddiadau trais gyda throseddau ag anaf, lladrad, ac eitemau llafnog ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. O'r rhain, 2,166 o ddigwyddiadau (55.3%) oedd y ffigur cronnus ar gyfer tair o ardaloedd yr Awdurdod Lleol, ac mae un ohonyn nhw'n cynnwys yr ardal lle digwyddodd y digwyddiad hwn a arweiniodd at yr adolygiad, gan dynnu sylw at y galw dybryd yn yr ardaloedd hyn. Mynegodd gweithwyr proffesiynol yn y sesiwn ddysgu eu bod yn ystyried bod hyn yn arfer da yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, Caerdydd ac Abertawe. Caerdydd yw Canolfan Trawma Morgannwg Ganol felly gellir trosglwyddo atgyfeiriadau o Forgannwg Ganol i Adran Achosion Brys Caerdydd; fodd bynnag, dim ond yng Nghaerdydd ac Abertawe y mae'r cynllun yn gweithredu. |

***19.12*** Mae'r adolygiad hwn wedi cydnabod cysylltiadau clir o fregusrwydd rhwng Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, ymgysylltu â gangiau stryd trefol, grwpiau troseddu cyfundrefnol, camfanteisio a chogio, ac roedd y rhain i gyd yn elfennau a oedd yn cefnogi ymdreiddiad cyffuriau, yn lleol ac ar draws ffiniau, gan arwain at unigolion yn mynd i ddyled am gyffuriau, a elwir yn gyffredin yn 'gaethwasanaeth oherwydd dyledion'. Yn aml, gorfodir adennill y ddyled gyda bygythiad o niwed difrifol ac yn yr achos hwn, defnyddio trais eithafol gydag arfau. Mae hefyd yn amlwg yn yr achos hwn fod y rhai sy'n dioddef dyled cyffuriau yn ymwybodol o'r tueddiad o drais tuag atyn nhw. Er gwaethaf y mesurau eithafol y bydd dioddefwyr yn eu cymryd, gyda'r bwriad o amddiffyn eu hunain rhag y risg o niwed, mae modd i'r canlyniadau fod yn angheuol, fel yr oedd yn yr achos hwn. (Society, dim dyddiad) *Criminals may use a tactic known as "debt bondage" which is where a real or perceived debt is used as a method to exert control over individuals, to provide the use of their properties for the preparation and/or dealing of drugs*[i]

**19.13** Cynghorwyd y panel adolygu am Ymgyrch ar Droseddau â Chyllell, mae'r ymgyrch hon yn tynnu sylw at beryglon cario cyllyll, wedi'i hanelu'n benodol at y tebygolrwydd eich bod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwr trosedd â chyllell os ydych chi'n cario cyllell. Mae rhai'n credu bod cario cyllell yn helpu i amddiffyn eich hun, ond mae ystadegau'n dangos, os ydych chi'n cario cyllell, eich bod chi'n fwy tebygol o gael eich anafu. Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth hefyd wedi nodi cenhadaeth yn ddiweddar ar gynlluniau ar gyfer newid: Strydoedd mwy diogel. Cydnabyddir bod plismona cymunedol wedi lleihau gyda swyddogion heddlu yn y gymdogaeth yn ymgymryd â thasgau eraill oherwydd prinder adnoddau. Mae hyn wedi arwain at wanhau cysylltiadau â chymunedau lleol. Cenhadaeth y Llywodraeth yw lleihau troseddau difrifol a chynyddu hyder y cyhoedd. Un flaenoriaeth benodol yw troseddau â chyllell, gwahardd arfau angheuol a gweithio i gael gwared ar lafnau peryglus o'r dwylo anghywir. Mae plismona lleol effeithiol wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n ofynnol er mwyn i'r genhadaeth strydoedd mwy diogel lwyddo. Mae'r Llywodraeth wedi gwarantu adnoddau ychwanegol i sicrhau gwelededd mewn cymunedau i atal/rhwystro troseddu ac ymateb i argyfyngau. Nod y diwygiad hwn yw gweld carfan plismona yn y gymdogaeth ym mhob ardal leol, gan ddarparu patrolau gweladwy sy'n cael eu harwain gan guddwybodaeth, a swyddog cyswllt penodol ym mhob cymdogaeth i ymateb i broblemau lleol. Nododd yr adolygiad hwn fod dros hanner yr unigolion a oedd yn destun yr adolygiad hwn yn hysbys eu bod yn cario cyllyll neu arfau llafnog a bod rhai mor ifanc â 14 oed.

**19.14** Yn ystod y sesiwn ddysgu, sefydlwyd bod yna Swyddog yn y Gymuned sy'n gweithio gyda PDC. Roedd ymarferwyr yn gefnogol o ran atgyfnerthu pwysigrwydd swyddogion yn y Gymuned a'r Gymdogaeth i'r cymunedau lleol a mynegwyd barn eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

**19.15** Mae'r adolygiad hwn wedi nodi ac atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng yr unigolion agored i niwed hynny sy'n cael eu targedu a'u

camfanteisio i droseddu er mwyn cefnogi'r galw am gyffuriau anghyfreithlon. Ar ben hynny, mae wedi nodi tueddiad yr unigolion hynny i ddefnyddio trais sylweddol gan ddefnyddio arfau, gan gynnwys cyllyll.

**19.16** Er bod nifer y troseddau treisgar a gofnodwyd sy'n gysylltiedig ag arfau yn uwch yn Lloegr, dangosodd yr adolygiad hwn fod achosion o droseddau cyfundrefnol difrifol gan gynnwys allforio neu fewnforio cyffuriau anghyfreithlon o fewn y DU ym mhob rhanbarth, ac o ganlyniad mae'r risg y bydd unigolion yn cael eu camfanteisio trwy rym, eu dylanwadu neu eu gorfodi i gludo cyffuriau, arfau neu arian.

**19.17** Er bod nifer o ymgyrchoedd wedi bod, gan gynnwys ymyrraeth gynnar a mentrau rhagweithiol fel ymgyrch cyllyll 'Ddim Yr Un' a gynhaliwyd gan Heddlu De Cymru a'r Uned Atal Trais, mae'r adolygiad hwn yn nodi'r angen parhaus i godi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau ynghylch canlyniadau difrifol ac angheuol troseddau â chyllell ar ddioddefwyr a throseddwyr. Yn yr achos hwn bu farw'r dioddefwr.

**19.18** Mae Pennaeth yr Uned Atal Trais wedi comisiynu Prifysgol De Cymru i gynnal gwerthusiad o'r 'Ymgyrch Ddim Yr Un - Atal ac Ymyrryd yn Gynnar Troseddau â Chyllell'. Pwrpas y gwerthusiad yw rhoi goleuni pellach beirniadol ar yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn sydd angen ei wella a ph'un a yw'r negeseuon yn taro tant gyda'r gynulleidfa darged.

**19.19** Yn dilyn canfyddiadau'r gwerthusiad hwnnw a ddisgwylir ym mis Mawrth 2025, bydd yr ymgyrch yn cael ei datblygu ymhellach, a bydd sylw hefyd yn cael ei roi i'r canfyddiadau yn yr adolygiad hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod dull yr Uned Atal Trais yn parhau i fod yn ymgyrch sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn effeithiol ac wedi'i thargedu yn y ffordd gywir.

**19.20** Mae Heddlu De Cymru wedi ymrwymo i Blismona yn y Gymdogaeth. Maen nhw wedi rhoi'r Canllawiau a'r Safonau Plismona yn y Gymdogaeth a ddarparwyd gan y Coleg Plismona ar waith. Mae'r carfanau yn y gymdogaeth yn canolbwyntio ar ddarparu ymgysylltiad ystyrlon, gweithgarwch wedi'i dargedu a rhoi adnoddau y tu ôl i ddatrys problemau cymunedol mewn modd cynaliadwy.

**19.21** Mae Heddlu De Cymru wedi ymrwymo erioed i gael swyddogion lleol enwebedig ym mhob Ward, boed yn Rheolwyr Rhawd yn y Gymdogaeth neu'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Y ffocws yw ymateb i anghenion lleol lle bo angen a darparu canolbwynt ar gyfer ymgysylltiad lleol. Mae hyn wedi cael ei atgyfnerthu'n ddiweddar drwy gyflwyno'r Warant Cymdogaeth genedlaethol sydd wedi cael ei chefnogi gan De Cymru yn Gwrando lle mae modd i'r cyhoedd gael mynediad at fanylion cyswllt yr holl swyddogion lleol a chael gwybod am flaenoriaethau lleol a gweithgareddau datrys problemau.

**19.22** Mae gan yr Uned Troseddau Mawr (MCU) yn WMP, sy'n ymdrin yn amlach â throseddau difrifol a thrais, brosesau a mecanweithiau ar waith i drosglwyddo troseddau lefel is i garfanau eraill drwy'r Ditectif Prif Arolygydd. Yn yr achos hwn roedd yna esgeulustod, felly, mae hyn yn parhau i fod yn gyfle a gollwyd ac mae yna ddysgu sefydliadol unigol. Serch hynny, mae angen cydnabod bod prosesau a mecanweithiau ar waith a'u bod yn cael eu dilyn i raddau helaeth. Lle mae troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn gysylltiedig â throseddau lefel uwch, gellir ystyried bod yr agwedd sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn un lefel is ac felly ni chaiff ei symud ymlaen bob amser, collir cyfleoedd i ymyrryd ac o bosibl amharu ar droseddoldeb a chamfanteisio. Mae hyn yn atal cyfleoedd pellach ar gyfer ymyrraeth statudol a gweithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau.

## Arferion Da

Mae ysbyty milwrol QEH yn arbenigo ym maes trin clwyfau a achosir gan arfau ymosodol fel clwyfau cyllell a chlwyfau saethu. Maen nhw'n gweithio ar y cyd â WMP.

Mae WMP wedi dangos arfer da gyda Charfan Rheoli Troseddwyr mewn Gangiau effeithiol. Mae swyddogion ymateb lleol yn cysylltu â'r garfan Rheoli Troseddwyr mewn Gangiau, gan ddarparu gweithwyr achos penodol wedi'u neilltuo i unigolion er mwyn cysondeb.

Darparodd yr elusen genedlaethol Redthread wasanaethau cymorth a chwnsela yn dilyn digwyddiad difrifol. Maen nhw wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn ymgysylltu ag unigolion sy'n ymwneud â digwyddiadau trais difrifol. Roedd modd iddyn nhw ddatblygu perthynas ac ymgysylltu dros gyfnod o 6 mis.

## Cyffuriau a Sylweddau

**19.23** Derbyniodd Heddlu De Cymru wybodaeth ar dri achlysur gwahanol i nodi pryder bod Steven yn defnyddio ac, yn honedig, yn cyflenwi Canabis a Chocên i fyfyrwyr eraill yn y Brifysgol.

**19.24** Yn dilyn yr ail linyn o guddwybodaeth, cyflwynodd Heddlu De Cymru gais o dan y Ddeddf Diogelu Data a rhannu gyda PDC eu bod yn ymchwilio i bryder ynghylch dau fyfyriwr yn PDC yn cyflenwi cyffuriau. Gofynnodd Heddlu De Cymru am wybodaeth am ddau fyfyriwr, a Steven oedd un ohonyn nhw. Ar ôl derbyn y cais hwn, ymatebodd PDC gyda'r wybodaeth a ofynnwyd amdani. Collwyd cyfle rhwng PDC a Heddlu De Cymru i gydweithio a chydlynu ymateb amlasiantaeth ymhellach i archwilio gweithgarwch aflonyddu ac atal ar gyfer y bobl dan sylw. Mae Gweithdrefn Asesu Risg Prifysgol De Cymru yn nodi y dylid cynnull panel lle mae myfyriwr yn peri risg iddo'i hun/eraill neu lle mae angen gweithredu lle gallai myfyriwr achosi risg ddifrifol i lesiant cymuned y brifysgol neu niwed i enw da'r sefydliad.

**19.25** Ni fyddai'r cais Deddf Diogelu Data yn sbarduno Gweithdrefn Asesu Risg nes eu bod yn cael gwybod gan yr heddlu am gamau gweithredu dilynol yr heddlu. Un sail dros hyn yw bod yn ofynnol rhoi gwybod i'r unigolyn a allai beryglu ymchwiliad.

**19.26** Penderfynodd y panel drwy'r broses adolygu fod cysylltiadau clir rhwng Birmingham a De Cymru o ran cyflenwi cyffuriau. Nid oedd hyn yn hysbys nac wedi'i nodi ar y pryd. Mae yna bobl sydd yn yr ardal o hyd sydd â chysylltiadau â'r Brifysgol ac sydd wedi cael eu hadnabod fel unigolion sy'n ymwneud â gweithgarwch cyffuriau gyda myfyrwyr eraill. Roedd yn amlwg o gofnodion yr heddlu bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n effeithiol ar Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu (PND) ar gyfer pob heddlu.

**19.27** Arestiwyd dau unigolyn ym mis Mehefin 2023, am 'bryder ynghylch cyflenwi cyffuriau dosbarth B' (Canabis). Credwyd bod y ddau unigolyn yn fyfyrwyr yn y Brifysgol, gydag un yn dod o Birmingham ac yn ôl y sôn roedd yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn y gorffennol. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn, cyhuddwyd un unigolyn ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach yn ymwneud â'r unigolyn arall. Cynullwyd Gweithdrefn Asesu Risg gan PDC ar gyfer y ddau unigolyn, gan ddangos defnydd effeithiol o'r broses.

**19.28** Cafodd P1 ei arestio (Ionawr 2023) yn Birmingham mewn cysylltiad â throsedd herwgipio honedig. Mewn ymateb i hyn, cynhaliodd WMP chwiliad o gyfeiriad ei gartref lle canfuwyd swmp o ganabis. Chafwyd dim camau pellach gan iddo nodi bod y cyffuriau at ddefnydd personol a doedd y swm a ddarganfuwyd ddim yn debygol o gyrraedd trothwy'r Gwasanaeth Erlyn y Goron i erlyn.

**19.29** Yn ddiweddarach daeth P1 i Dde Cymru i gysylltu ag unigolion eraill a oedd yn wreiddiol o ardal Birmingham. Doedd WMP ddim yn ymwybodol bod P1 wedi symud allan o'r ardal a doedden nhw ddim yn ymwybodol o gysylltiadau teuluol posibl yng Nghymru. Doedd Heddlu De Cymru ddim yn ymwybodol bod P1 yn yr ardal chwaith. Felly, doedd dim cuddwybodaeth na gwybodaeth yn cael ei dal gan y naill ardal Heddlu na'r llall i ddangos na sefydlu bod P1 yn ymwneud â gweithgarwch cyffuriau Llinell Cyffuriau ac yn teithio rhwng Birmingham a De Cymru.

**19.30** Nododd WMP fod P1 wedi mynd oddi ar y radar o fis Chwefror 2023 yn dilyn ei arestiad ym mis Ionawr 2023 ynghylch yr honiad o herwgipio, ond roedden nhw'n credu ei fod yn cadw'n dawel oherwydd cyflwyno Hysbysiad Bygythiad i Fywyd. Doedd dim rheswm gan WMP i gredu fel arall gan nad oedd unrhyw adroddiadau bod P1 yn ymwneud â throseddoldeb yn ystod y cyfnod hwn, ac nid oedd unrhyw adroddiadau o bryder yn gysylltiedig â P1 i awgrymu bod angen unrhyw wiriadau lles.

**19.31** Nododd yr adolygiad fod rhai unigolion wedi nodi fod Clwb Nos Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru yn broblematig o ran gweithgarwch cyffuriau ac mai dyma lle cafodd rhai myfyrwyr eu cyflwyno i gyffuriau am y tro cyntaf. Cynghorwyd y panel y byddai modd i bobl nad ydynt yn fyfyrwyr gael mynediad i'r lleoliadau hyn hefyd gan fod aelodau'n cael gwahodd 2-3 o ffrindiau. Mae aelod panel Prifysgol De Cymru wedi cynghori Clwb Nos Undeb y Myfyrwyr a safleoedd eraill, ei fod yn gweithredu o fewn canllawiau trwyddedu a bod y Clwb Nos wedi cau ers hynny yn sgil llai o alw.

**19.32** Er bod yr adolygiad wedi nodi bod gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â defnyddio cyffuriau a sylweddau i bob golwg yn gyfyngedig yn y Brifysgol, roedd y Brifysgol yn gallu darparu gwybodaeth i'r panel sy'n manylu ar yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr pe bydden nhw'n dymuno cael mynediad atyn nhw. Yn 2022-2023, lansiodd Prifysgol De Cymru gwrs E-ddysgu ar gyffuriau ac alcohol hefyd.

**19.33** Mae camddefnyddio a chyflenwi cyffuriau yn broblem i bob cymuned, ac mae'r adolygiad hwn yn cydnabod bod amgylchiadau penodol o amgylch myfyrwyr prifysgol sy'n cynyddu'r agoredrwydd i weithgarwch anghyfreithlon, gan gynnwys y boblogaeth o fyfyrwyr dros dro a phwysau'n ymwneud ag astudiaethau.

**19.34** Nododd yr adolygiad fod gan rai myfyrwyr ddiffyg dealltwriaeth o linellau cyffuriau, cyflenwi cyffuriau'n anghyfreithlon a'u bod nhw ddim yn ymwybodol o gymorth / adnoddau i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau.

**19.35** Hysbyswyd yr adolygiad bod Heddlu De Cymru a PDC yn cydweithio ar fentrau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, gan ddarparu addysg i fyfyrwyr yn ymwneud â diogelwch a chyffuriau, a'u bod yn cael eu cefnogi gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu pwrpasol. Serch hynny, nododd yr adolygiad hwn nad oedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn cyrraedd pob myfyriwr a chydnabyddir bod cyfle i wneud rhagor.

**19.36** Mae WMP wedi nodi bod cyfle wedi'i golli mewn perthynas â P1. Fe wnaethant nodi bod digon o dystiolaeth i gynnal ymchwiliad mewn perthynas â chyflenwi Canabis a gafodd ei atal. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd o bosibl i fwrw ymlaen ag erlyniad a allai fod wedi arwain at ymyrraeth statudol gan asiantaeth statudol â P1. Er hynny, ni ellir gwybod canlyniad mater o'r fath a byddai'n cael ei bennu gan Lys Barn trwy ystod o opsiynau dedfrydu.

**19.37** Nododd yr adolygiad hwn y pwysigrwydd i WMP ymateb i droseddau lefel isel, a'u dilyn. Mae angen gweld y darlun ehangach o ran y gweithgarwch hwn a'r cyfle posibl i nodi ac atal troseddoldeb a chamfanteisio'n gynnar a'r potensial ar gyfer ymyrraeth a chyfranogiad gwasanaethau statudol.

**19.38** Mae gan WMP broses ar waith lle mae modd i Ymchwilwyr Troseddau Difrifol drosglwyddo troseddau lefel isel a nodwyd mewn ymchwiliadau i droseddau difrifol i gangen ymchwilio arall i ymdrin â nhw. Bu amryfusedd yn ystod y digwyddiad hwn.

**19.39** Pan gyfarfu'r adolygwyr â'r meddyg teulu, gofynon nhw a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i gyfeirio Steven at y gwasanaethau cymorth yn y Brifysgol. Cadarnhaodd y Meddyg nad oedden nhw wedi gwneud hynny oherwydd nad oedden nhw'n ymwybodol o'r cymorth neu'r adnoddau ar gael y byddai'r Brifysgol yn eu darparu i fyfyrwyr, gan gynnwys cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Mae angen i feddygfeydd teulu sy'n cefnogi myfyrwyr fod yn effro i'r gwasanaethau a'r cymorth y gall Prifysgolion eu cynnig i fyfyrwyr fel bod modd iddyn nhw drafod hyn gyda chleifion a'u cyfeirio'n effeithiol at y gwasanaethau priodol.

**19.40** Mae Prifysgol De Cymru wedi cadarnhau eu bod yn gweithio i ddatblygu llwybr atgyfeirio a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth (ISA) gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.

**Arferion Da**

Dangosodd Heddlu De Cymru y gwnaed cais am ddulliau plismona ychwanegol ac wedi'u hawdurdodi'n gyfreithiol i ddatblygu cuddwybodaeth ynghylch amheuaeth o weithgarwch cyffuriau. O ganlyniad i'r sesiwn friffio cuddwybodaeth Heddlu hon, mae modd i'r cadeirydd a'r adolygwyr gofnodi bod arfer da wedi'i nodi.

Mae Prifysgol De Cymru wedi sefydlu dull lleihau niwed a mecanwaith llywodraethu sy'n cyd-fynd ag argymhellion a fframwaith arfaethedig adroddiad diweddar y Sector Addysg Uwch gan Universities UK (Saesneg yn unig). Mae'r Brifysgol wedi treialu gwasanaeth defnyddio sylweddau dan arweiniad cyfoedion mewn partneriaeth â Barod ac yn hyrwyddo i bob myfyriwr raglen addysg cyffuriau ac alcohol ar-lein dibynadwy "staying safe", yn ogystal â mecanwaith gwasanaeth cymorth integredig sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i wella ymhellach y ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, gan gynnwys mynd i'r afael â'r cyflenwad, lleihau'r galw a gwella'r cymorth. Maen nhw'n ceisio gwneud hyn mewn partneriaeth â'r heddlu a sefydliadau arbenigol eraill.

**Camfanteisio (llinellau cyffuriau / rheolaeth drwy orfodaeth / meithrin perthynas amhriodol / cogio / gangiau troseddu cyfundrefnol)**

**19.41** Roedd cuddwybodaeth yn dangos bod Steven yn cyflenwi cyffuriau i fyfyrwyr eraill, ond nid oedd unrhyw gofnod o bryderon ynghylch risgiau mewn perthynas â Gangiau Troseddu Cyfundrefnol a/neu Linellau Cyffuriau. Ymddengys o guddwybodaeth a nodwyd bod y cyflenwad honedig o gyffuriau ar lefel leol.

**19.42** Yn dilyn adolygiad trylwyr o'r holl wybodaeth a chuddwybodaeth a oedd gan asiantaethau, roedd y panel yn fodlon nad oedd unrhyw dystiolaeth yn ystod y llinell amser a fyddai wedi codi pryder neu a oedd yn tynnu sylw at gyfle a gollwyd i blant fod yn gysylltiedig â masnachu plant, caethwasiaeth fodern neu linellau cyffuriau. Serch hynny, mae angen ystyried diogelu cyd-destunol o ystyried rhwydweithiau cyfoedion y bobl ifainc dan sylw a'u agoredrwydd o ran dod yn ddioddefwyr camfanteisio troseddol.

**19.43** Cafodd Camfanteisio Troseddol ei nodi yn ymwneud â'r ddau berson ifanc lleol sydd ag ôl troed troseddol bach a gafodd eu hunain yn rhan o ymrafael y digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad hwn. Roedden nhw yng nghwmni P1 a oedd yn cyflenwi cyffuriau ac yn gyfrifol am gasglu'r ddyled a gafwyd am y cyffuriau a gyflenwyd. Arweiniodd hyn nid yn unig at yr unigolion hynny yn dyst i lofruddiaeth, ond roedd eu presenoldeb hefyd yn eu gwneud nhw'n gysylltiedig â throsedd, gan arwain at eu cyhuddo o lofruddiaeth. Yn ddiweddarach, cawson nhw eu rhyddfarnu o gyhuddiadau llofruddiaeth a dynladdiad; fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y digwyddiad a'r weithred ddilynol wedi cael effaith drawmatig arnyn nhw.

**19.44** Mae tystiolaeth glir o gogio yn yr adolygiad hwn er efallai nad yw'r dioddefwyr wedi nodi camfanteisio o'r fath. Roedd yr eiddo hwn yn eiddo i dai cymdeithasol, ac mae adroddiadau'n awgrymu bod y llety mewn cyflwr gwael ac angen ei atgyweirio.

Roedd P1 yn ymwneud â chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon o Loegr i Gymru. Ymddengys bod P1 wedi cael ei gyflwyno i'r ardal wedyn ac yn ôl-weithredol i leoedd preswyl gan berson yr oedden nhw'n ei adnabod ac a oedd wedi llwyddo'n flaenorol i gartrefu eu hunain yn effeithiol.

Roedd yr unigolyn y gwnaethon nhw ddisodli ei sefyllfa yn byw mewn llety lleol gydag unigolion eraill yr oedden nhw wedi dod yn ffrindiau â nhw o fewn y gymuned, ar ôl mynychu sefydliadau trwyddedig lleol yn ogystal ag Undeb y Myfyrwyr, trwy ymweld â bar Undeb y Myfyrwyr.

Roedd yr unigolion a gafodd eu cogio yn agored i niwed, yn byw mewn ardal ddifreintiedig, gydag iechyd meddwl gwael, teimladau o ynysigrwydd cymdeithasol a/neu'n cymryd cyffuriau, ond roedd gan bob un ohonyn nhw eu llety eu hunain, wedi'i rentu neu fel arall.

**19.45** Yn anochel, bydd gan y rhai sy'n camfanteisio ar bobl agored i niwed trwy gogio o'r tu hwnt i'r ffin i ymdreiddio cyffuriau anghyfreithon i'r gymuned a'r Brifysgol fwy nag un lle i aros fel rhwydwaith sy'n dibynnu ar gael sawl llety ar gael. Roedd hyn yn amlwg yn yr adolygiad hwn.

**19.46** Nododd yr adolygiad fod P1 nid yn unig wedi gweld trais eithafol yn flaenorol, ond ei fod hefyd wedi bod yn ddioddefwr trais eithafol ei hun ar ôl bod yn ddioddefwr camfanteisio.

**19.47** Mae'n amlwg yn yr adolygiad hwn fod plant yn ogystal ag oedolion wedi bod yn destun camfanteisio er efallai nad oedden nhw wedi nodi hyn eu hunain ar y pryd.

**19.48** Mae camfanteisio yn faes sy'n destun pryder ledled y DU ac mae ganddo effaith andwyol ar blant ac oedolion o fewn cymunedau.[10]

**19.49** Dywedodd y panel, er bod gan yr ardal lle digwyddodd y digwyddiad hwn brotocol ar waith ar gyfer rheoli plant sydd mewn perygl uchel o gael eu camfanteisio, bod hyn wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol i Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg, a bod datblygu Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol mewn partneriaeth â Bwrdd Diogelwch Cymunedol CTM wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dull diogelu cyd-destunol. Ym mis Ebrill 2025, bydd Cam 1 (Plant a Phobl Ifainc) y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith a bydd Cam 2 (Oedolion) yn cael ei ddatblygu. Er bod aelodau'r panel yn croesawu hyn, does dim strategaeth genedlaethol ar waith i ganiatáu dull cyson ledled Cymru a'r DU.

**19.50** Gwnaeth adolygiad 'Jay Review of Criminally Exploited Children' ac adroddiad 'Plant sydd ar yr Ymylon' a gwblhawyd yn ddiweddar argymhellion sylweddol o'r dysgu a adlewyrchwyd yn yr adolygiad hwn. [11] [12] Cefnogodd y panel argymhellion y ddau.

**19.51** O ganlyniad i Adolygiad Jay, cafodd y 'Mesur Troseddu a Phlismona 2025' Mesur Troseddu a Phlismona - Mesurau Seneddol - Senedd y DU (Saesneg yn unig) ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2025 sy'n creu trosedd newydd annibynnol a phenodol i erlyn oedolion sy'n camfanteisio ar blant i wneud gweithgareddau troseddol. Yn ogystal, bydd hefyd yn drosedd 'meddiannu' cartref person a elwir hefyd yn 'Gogio' neu 'Cuckooing'. Mae'r Panel yn cefnogi'r penderfyniadau hyn.

**19.52** Cydnabyddir y byddai Strategaeth Genedlaethol ar gyfer camfanteisio yn rhoi dull cyson i Arweinyddiaeth Genedlaethol ledled y DU. Byddai hyn yn sicrhau bod gweithdrefn polisi a phrotocol effeithiol yn cael eu rhoi ar waith. Byddai'n darparu cyfleoedd i gasglu'r data a'r cuddwybodaeth i ganiatáu rhoi ataliaeth ar waith i amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

---

[10] https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines (Saesneg yn unig)

[11] https://www.actionforchildren.org.uk

[12] https://senedd.cymru/media/mwvhsvt4/cr-ld16844-w.pdf

**19.53** Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn gyfrifoldeb pawb, fel y nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.[13] Fe wnaeth y Panel gydnabod y llu o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau i gefnogi'r ymyrraeth statudol i amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o dan y categorïau diffiniedig o Gam-drin Corfforol, Emosiynol, Rhywiol, Ariannol ac Esgeulustod. Serch hynny, cydnabuwyd, wrth ddiffinio oedolyn mewn perygl, efallai y byddai tybiaeth yn cael ei wneud fod gan yr oedolyn alluedd neu ei fod wedi cydsynio ac felly na fyddai o bosibl yn cael ei nodi fel 'mewn perygl'. Cytunodd y panel nad oes modd i neb gydsynio i gael ei gamfanteisio, mai camdriniaeth ydyw, ac felly yn absenoldeb categori o gamfanteisio ynddo'i hun ar gyfer plant ac oedolion, teimlwyd y dylid adolygu canllawiau i oedolion a'u gosod ochr yn ochr â Gweithdrefnau Diogelu Cymru fel bod modd i bob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol sicrhau bod plant ac oedolion fel ei gilydd yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camfanteisio.

**19.54** Mae'r panel yn ymwybodol y bydd Carfan Caethwasiaeth Fodern/Camfanteisio Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r canllawiau ymarfer i blant.

**19.55** Er mwyn cryfhau'r ymateb rhanbarthol i drais difrifol a chamfanteisio troseddol ar blant, mae Bwrdd Diogelwch Cymunedol CTM wedi sefydlu Bwrdd Atal Trais yn ddiweddar fel is-grŵp pwrpasol. Bydd y bwrdd hwn yn darparu llwyfan strategol, gan sicrhau dull cydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o leihau trais, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifainc. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos ag Amcanion Strategol Camfanteisio Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

**19.56** Gan ddod ag uwch swyddogion sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghyd o feysydd plismona, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, cyfiawnder ieuenctid a sefydliadau cymunedol, ymhlith eraill, bydd y Bwrdd yn hyrwyddo cydweithio ar draws sectorau i ddatblygu a chyflawni ymyraethau wedi'u targedu i gefnogi plant a phobl ifainc sy'n cael eu heffeithio gan drais. Drwy ddadansoddi data rhanbarthol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, bydd y bwrdd yn nodi heriau a chyfleoedd cyffredin, gan alluogi dull rhagweithiol ac ataliol.

**19.57** Bydd y Bwrdd Atal Trais hefyd yn llywio gweithrediad lleol y Ddyletswydd Trais Difrifol, gan sicrhau ymateb strwythuredig a chynaliadwy sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac yn cael ei deilwra i anghenion cymunedau Cwm Taf Morgannwg. Drwy ddysgu ar y cyd, alinio adnoddau, a gweithredu ar y cyd, mae'r dull cydweithredol hwn yn gwella atebolrwydd, arloesedd ac effaith hirdymor, gan roi'r hyder i gymunedau adrodd am bryderon gan greu cymunedau mwy diogel a lleihau'r risg o niwed, yn enwedig ymhlith pobl ifainc agored i niwed.

[13] https://www.diogelu.cymru/cy/

**19.58** Wedi'i sefydlu ers dechrau'r Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol hwn, mae'r Bwrdd hwn ynghyd â gweithredu Strategaeth Camfanteisio Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn rhoi cyfle i yrru nifer o'r argymhellion a nodwyd drwy gydol yr adolygiad ar waith, yn enwedig y rhai sydd angen cydweithrediad amlasiantaethol.

**19.59** Roedd y darparwr Tai Cymdeithasol yn ymwybodol ac wedi cael gwybod am bryderon ynghylch y llety yr oedd angen gwaith arno. Adroddwyd bod y tŷ mewn cyflwr ofnadwy, yn llawn lleithder a dylai fod wedi ysgogi ymateb yn gynharach. Efallai y byddai ymateb neu sylw cynharach i'r adroddiad hwn wedi caniatáu i'r darparwr Tai Cymdeithasol nodi atgyweiriadau i'r eiddo ac o bosibl nodi pryderon pellach mewn perthynas ag arwyddion posibl o gogio a gweithgarwch anghyfreithlon mewn eiddo tai cymdeithasol.

**19.60** Gyda'r newidiadau diweddar yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae modd i landlordiaid bellach gymryd camau sifil drwy'r llysoedd drwy waharddeb i gael mynediad at eiddo. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithiol i landlordiaid gael mynediad i eiddo lle nad oes fawr ddim ymgysylltiad gan denantiaid, neu lle nad oes dim ymgysylltiad o gwbl.

**19.61** Er bod ymchwil diweddar wedi dangos bod myfyrwyr yn llai tebygol o fod wedi defnyddio cyffuriau yn ystod y deuddeg mis diwethaf o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol 16 i 24 oed, mae modd i fyfyrwyr fod yn agored i niwed pan fyddan nhw'n mynychu prifysgol am y tro cyntaf a gall hyn gael ei waethygu gan ynysigrwydd cymdeithasol. Yn yr adolygiad hwn, arweiniodd hefyd at ddylanwadu ar fyfyrwyr a'u cynnwys mewn gweithgarwch troseddol. Nododd yr adolygiad hwn nad oedd pob myfyriwr yn ymwybodol o'r adnoddau a'r cymorth sydd ar gael gan y Brifysgol sydd â'r bwriad o liniaru teimladau o ynysigrwydd, yn ystod y tymor a thu allan i'r tymor. Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i adolygu cynlluniau cyfeillio, mentora cyfoedion, a mentrau eraill o fewn lleoliadau'r brifysgol i helpu myfyrwyr newydd, yn enwedig y rheiny o'r tu allan i'r ardal, i deimlo'n gartrefol ac yn llai ynysig.

**Iechyd Meddwl**

**19.62** Roedd gan Steven a'i deulu bryderon ynghylch ADHD. Fel oedolyn roedd Steven yn aros am asesiad ADHD a chlywodd y panel gan y teulu fod ymgynghoriad preifat wedi'i gynnal lle awgrymwyd bod Steven yn arddangos symptomau nodweddiadol ADHD, ond eu bod yn dal i ddilyn cadarnhad o ddiagnosis meddygol. Roedd rhai o ymddygiadau Steven, fel gweithredu heb feddwl am ganlyniadau ac anhawster ymdopi â sefyllfaoedd llawn straen, yn gyson â symptomau ADHD. Dysgodd y panel fod Steven wedi arddangos ymddygiadau camddasol, ac adroddwyd gan y teulu ei fod yn teimlo'r angen i 'hunanfeddyginiaethu' gyda chyffuriau i reoli a thawelu ei feddwl. Rhaid cydnabod y gall camddefnyddio cyffuriau yn y tymor hir fod yn arwydd o gaethiwed neu ddibyniaeth ar sylweddau. Mae'r panel yn cytuno bod angen ystyried hefyd effaith camddefnyddio canabis yn y tymor hir gan y gallai hyn fod wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl Steven. Mae tystiolaeth sy'n awgrymu, lle mae unigolion yn cymryd Canabis i dawelu eu meddwl neu i'w helpu i gysgu, y gall Canabis gael yr effaith groes.

**19.63** Nododd yr adolygiad, yn dilyn atgyfeiriad ar gyfer asesiad/cymorth iechyd meddwl, y byddai ymarferwyr gofal iechyd yn ymdrechu i gysylltu â chleifion drwy lythyr. Gall symptom o osgoi fod yn nodweddiadol mewn rhai pobl ag iechyd meddwl gwael, ac yn ei dro gall arwain at beidio ag agor post. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn aml yn byw mewn tai amlfeddiannaeth a fydd gohebiaeth ar ffurf llythyrau ddim bob amser yn ffordd sicr o'i ddanfon. Nodwyd y dysgu hwn mewn adolygiad blaenorol, SUSR01/2022, lle derbyniodd CAMHS bwysigrwydd datblygu dulliau amgen o gyfathrebu â chleifion. Ers hynny, maen nhw wedi ymgorffori negeseuon testun SMS mewn perthynas â rhybuddio plant am apwyntiadau ac mae proses debyg yn cael ei datblygu ar gyfer oedolion ac mae disgwyl iddi gael ei rhoi ar waith yn y dyfodol agos.

**19.64** Nododd y panel fod Steven wedi rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth o wrthiselyddion. Er bod cofnodion y meddyg teulu yn cadarnhau bod y feddyginiaeth wedi'i rhagnodi o fis Awst i fis Tachwedd 2022, roedd y penderfyniad i roi'r gorau iddi yn un sydyn ac nid oedd wedi ymgynghori â'i feddyg teulu. Does dim mecanwaith ar waith i nodi hyn fel pryder, i'r meddyg teulu ddilyn hyn a thrafod risgiau neu roi cyngor, oni bai bod y claf yn ymgyflwyno ar achlysur pellach pan fyddai'r nodyn rhybudd yn rhybuddio'r meddyg bod y claf wedi rhoi'r gorau i feddyginiaeth heb ymgynghori. Mae'r panel yn sylweddoli nad yw hyn yn unigryw i'r Feddygfa Deulu hon a bydd yn broblem ehangach. Roedd hyn yn golygu bod Steven wedi rhoi'r gorau i'w feddyginiaeth gwrth-iselder a ragnodir heb gyngor ac arweiniad gan ei feddyg teulu mewn perthynas ag effaith rhoi'r gorau i'r feddyginiaeth honno'n sydyn a/neu driniaeth/cymorth amgen.

**19.65** Dysgodd y panel hefyd drwy'r adolygiad hwn fod P1 wedi cael trafferth ac wedi arddangos symptomau Anhwylder Straen ôl-drawmatig yn sgil digwyddiadau blaenorol, gan gynnwys clwyf saethu i'w gorff a bygythiad hysbys i'w fywyd fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad. Nododd y panel fod hwn o bosibl yn un o'r ffactorau arwyddocaol wrth i P1 symud o Loegr i Gymru.

**19.66** Doedd dim mecanwaith rhybuddio ar waith i hysbysu'r meddyg teulu bod yr unigolyn wedi rhoi'r gorau i'r feddyginiaeth gwrth-iselder a ragnodir ac felly bod y driniaeth wedi dod i ben. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw ddilyniant gan y meddyg teulu gyda'r unigolyn i archwilio'r rhesymau dros hyn ac i roi cyngor ac arweiniad i leihau/atal dirywiad mewn iechyd meddwl. Mae'r panel yn cydnabod, o dan foeseg feddygol a'r gyfraith, fod gan glaf yr hawl i wneud penderfyniadau gwybodus am ei driniaeth, sy'n cynnwys yr hawl i roi'r gorau i feddyginiaeth. Serch hynny, mae darparwyr gofal iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod cleifion yn deall pwrpas meddyginiaeth a ragnodir, y manteision posibl, y risgiau, neu ganlyniadau rhoi'r gorau i feddyginiaeth yn sydyn a dewisiadau amgen posibl i'r feddyginiaeth a ragnodir.

**19.67** Gwyddom o adolygiadau blaenorol (Plentyn Y 04/2022 a CV SUSR 01/2020) fod anghysondebau mewn perthynas â meddyginiaeth nad yw'n cael ei chasglu neu ddim yn cael ei pharhau â hi wedi bod yn broblem, gan ddangos y gallai system nodyn rhybudd bosibl ar gyfer iechyd i rybuddio ymarferwyr fod yn ateb.

**19.68** Mae'r adolygiad yn ymwybodol bod peidio â chymryd meddyginiaeth wedi'i nodi fel thema sy'n dod i'r amlwg i'w hystyried gan y Rhwydwaith Cymorth Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a bod gwaith yn mynd rhagddo i archwilio'r maes hwn yn fanylach. Bydd yr hyn a ddysgir o'r adolygiad hwn yn ychwanegu at y sail dystiolaeth ar gyfer gwaith parhaus.

**19.69** Mae meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn dibynnu gormod ar gymryd geiriau cleifion ar eu golwg ac mae hyn wedi cael ei nodi yn yr adolygiad hwn. Er y cydnabyddir bod angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol barchu'r hyn y mae cleifion yn ei ddatgelu, mae angen i ymarferwyr fabwysiadu dull mwy cyfannol o gasglu a deall hanes claf, yn enwedig pan fo'r person hwnnw o ardal wahanol.

**19.70** Gallai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud rhagor i ystyried effaith unigolion sy'n arddangos symptomau nodweddiadol ADHD neu ddiagnosis wedi'i gadarnhau ar unigolion. Dylid ystyried mecanweithiau ymdopi a allai achosi problemau ac ymddygiadau camaddasol y gallai unigolion eu mabwysiadu fel strategaeth ymdopi, a sut y gallai hyn fod yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a chael effaith niweidiol ar unigolyn.

**Rhannu Gwybodaeth**

**19.71** Mae proses rhannu gwybodaeth weithredol ar waith rhwng yr Heddlu a'r Brifysgol, er nad yw wedi'i ffurfioli mewn gweithdrefn weithredu safonol.

**19.72** Doedd Heddlu De Cymru ddim wedi cael gwybod a doedden nhw ddim yn ymwybodol bod y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) wedi e-bostio'r Gwasanaethau i Blant. Pe bai'n hysbys, byddai'r Heddlu wedi cysylltu'n uniongyrchol â'r Gwasanaethau i Blant ac wedi cydweithio â hyn. Cwblhaodd Heddlu De Cymru Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd yn seiliedig ar yr wybodaeth a dderbyniodd gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) a arweiniodd at ddyblygu gwaith.

**19.73** Dylid cydnabod bod cyfle o hyd i wella'r broses gynhwysfawr o rannu gwybodaeth a chuddwybodaeth gyda Phrifysgolion, Colegau ac Ysgolion ledled Cymru wrth roi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar waith. Nodwyd dysgu tebyg hefyd mewn adolygiad blaenorol, SUSR01/2022.

**19.74** Nodwyd gan y panel, mewn rhai achosion, fod Protocolau Rhannu Gwybodaeth (Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)) wedi'u methu gan na chafodd yr heddlu wybod bod y Gwasanaethu i Blant eisoes wedi cael gwybod am rai pryderon a godwyd mewn perthynas â phlant a gallen nhw fod wedi atal dyblygu gwaith. Mae angen iddyn nhw fod yn gadarn pan fo pryderon ynghylch diogelu. Dylid ystyried sut mae cuddwybodaeth yn cael ei thrin a'i defnyddio i sicrhau diogelwch.

**Arferion Da**

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd cymorth cynhwysfawr ac integredig i fyfyrwyr drwy gydol eu dysgu. Mae myfyrwyr sy'n ymuno â Phrifysgol De Cymru yn cael gwybod am gyfleoedd drwy gyfathrebu cyn mynediad, sefydlu, rhaglenni croeso a chyswllt parhaus â staff academaidd/staff cymorth a'r porth i fyfyrwyr a'r amgylchedd dysgu rhithwir. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, Mentora; Cymorth Astudio â Chymorth Cymheiriaid; Llyw-wyr Myfyrwyr; a Togetherall – cymuned cymorth cymheiriaid ar-lein 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn; Mae'r adolygiad hwn wedi dangos bod Steven wedi ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth o gymorth yn PDC a oedd yn gweithio'n gydlynol, gan rannu gwybodaeth yn briodol i gynnig yr ymyraethau gorau.

**Effaith Covid-19**

**19.75** Nododd yr adolygiad hwn mai yn ystod COVID y daethpwyd â'r bobl iau ynghyd. Roedd P3 a P2 yn byw ar yr un ystâd dai'r Awdurdod Lleol â P5. Yn ystod COVID fe wnaethon nhw ffurfio perthnasoedd oherwydd bod gan P5 blant o grwpiau oedran tebyg.

**19.76** Nodwyd gan y panel adolygu ac yn y sesiwn ddysgu fod COVID wedi effeithio ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, gan fynd i ysbytai i asesu a rhoi cymorth i ddioddefwyr wyneb yn wyneb pan y bu'n briodol i reoli risg ac ymgysylltu'n effeithiol ag unigolion.

**19.77** Nododd yr adolygiad fod COVID hefyd wedi effeithio ar unigolion a gollodd swyddi yn ystod y cyfnod hwn ac a gafodd eu hynysu ymhellach oddi wrth gymorth gan gydweithwyr, teulu a gwasanaethau cymorth. Byddai hyn wedi cael effaith andwyol ar wydnwch a strategaethau ymdopi gan adael unigolion yn fwy agored i niwed.

**19.78** Nododd yr adolygiad hwn hefyd, yn ystod COVID gyda llinellau amser y cyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol, fod effaith sylweddol ar blant a phobl ifainc o ran diogelu. Y goblygiadau o ran ysgolion ddim yn gweld newidiadau yn ymddygiad unigolion a'r diffyg cyswllt wyneb yn wyneb ac yn bersonol â phobl ifainc, sy'n golygu y gallai adnabod ac ymyrryd yn gynnar gael eu methu.

## Prosesau a Chyfathrebu

**19.79** Roedd y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) yn brydlon iawn wrth adrodd pryder diogelu am ddau blentyn i'r Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau ac ar gyngor y garfan honno hefyd i'r heddlu.

**19.80** Gwnaeth y gwasanaethau cymdeithasol eu gwiriadau eu hunain ar yr wybodaeth gyfyngedig a sefydlu bod y dyn yn risg i'w blant ei hun ac yn cael sylw'r gwasanaethau ac nad oedd ganddyn nhw unrhyw wybodaeth ei fod yn byw yn eu cyfeiriad.

**19.81** Cadarnhaodd yr heddlu nad oedden nhw wedi cael gwybod gan y Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau am gyswllt cychwynnol Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) â'r Gwasanaethu i Blant. Pe bydden nhw wedi gwybod bod cysylltiad wedi'i wneud, bydden nhw wedi cysylltu â'r asiantaeth.

**19.82** Ar ôl mynd i'r tŷ, roedd yr Heddlu'n fodlon nad oedd unrhyw bryderon ynghylch diogelu, gan dderbyn barn y fam-gu ar ochr y fam mai galwad faleisus oedd hi. Ni siaradodd yr heddlu â rhiant y plant. Roedd gorddibyniaeth ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y fam-gu.

**19.83** Yn ystod y sesiwn ddysgu, cydnabuwyd bod oedi o saith wythnos wedi bod cyn cyflwyno'r Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd i'r Gwasanaethu i Blant, sydd y tu allan i'r polisi a'r weithdrefn arferol.

**19.84** Collwyd cyfle hefyd gan y Gwasanaethu i Blant a'r Heddlu i driongli'r wybodaeth gyda'i gilydd i benderfynu ar unrhyw risg ac i'r Gwasanaethu i Blant gael trafodaeth 'Beth sy'n Bwysig' gyda P5 oedd â chyfrifoldeb rhiant.

**19.85** Ym mis Hydref 2022 arestiodd yr Heddlu P2 am ddwyn pwrs. Yn ystod y sesiwn ddysgu, lleisiodd ymarferwyr eu pryderon ynghylch yr oedi 6 mis rhwng yr honiadau o'r lladrad a'r cyfweliad dilynol â P2. Yn dilyn ei gyfweliad bu oedi pellach o 3 mis cyn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid ddod yn rhan o bethau â P2 ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys. Bu'n gweithio gyda'r System Cyfiawnder Ieuenctid o 9 Mehefin 2023 i 4 Hydref 2023.

**19.86** Roedd ymarferwyr yn teimlo fod cyfle wedi'i golli i wneud gwaith ymyrraeth gynnar gyda P2 yn gynt oherwydd ym mis Tachwedd 2022 roedd ei ymddygiad wedi gwaethygu i fod yn ddigwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ym mis Rhagfyr 2023, cafodd ei arestio mewn perthynas â'r digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad hwn.

**19.87** Os yw unigolion sy'n cyflawni troseddau lefel isel yn mynd i gael eu hatgyfeirio at y System Cyfiawnder Ieuenctid trwy ddull datrysiad y tu allan i'r llys, yna mae angen cyflymu'r atgyfeiriad hwnnw i sicrhau ymyrraeth gynnar gyda'r bwriad o atal yr unigolyn rhag cyflawni troseddau pellach. Nododd yr adolygiad fod oedi cyn atgyfeirio at y System Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys, fodd bynnag, mae'r adolygiad wedi cael gwybod nad yw oedi yn arferol a bod y broses yn gweithio'n dda rhwng y System Cyfiawnder Ieuenctid a Heddlu De Cymru ac fel rheol gyffredinol cânt eu prosesu'n gyflym.

**19.88** Yn ystod cyfarfod y Panel ac yn y sesiwn ddysgu, nodwyd y gallai Rhentu Doeth Cymru fod yn adnodd gwerthfawr i bartneriaid diogelu. Serch hynny, tan yr adolygiad hwn, nid oedd y gallu i rannu gwybodaeth o safbwynt llety rhent preifat yn hysbys iawn. Mae'r asiantaeth yn awyddus i wneud cysylltiadau gwell ag asiantaethau eraill ac mae'n barod i ymgysylltu â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

## 20 Gwella Systemau ac Ymarfer (yn Genedlaethol, yn Rhanbarthol ac yn Lleol):

Er mwyn dysgu o'r achos yma, nododd yr Adolygiad y gweithrediadau canlynol a'r deilliannau gwell sy'n cael eu rhagweld:

**20.1** Mae'r Adolygiad hwn wedi nodi bod gan bob asiantaeth, gan gynnwys asiantaethau statudol a thrydydd sector, rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â throseddau treisgar er mwyn sicrhau bod cymunedau yn y rhanbarth yn lle diogel i fyw a gweithio ynddyn nhw.

**Argymhelliad 1** – Rhaid i Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel gryfhau'r ymateb amlasiantaeth i drais difrifol a chamfanteisio yn y Rhanbarth. Dylid gwneud hyn drwy:

- Ddull diogelu cyd-destunol
- Dealltwriaeth o nifer yr achosion o'r materion o fewn y rhanbarth, a
- Llwyfan strategol

Bydd hyn yn creu dull o leihau trais sy'n gydgysylltiedig ac yn seiliedig ar dystiolaeth, wrth atal ac amddiffyn unigolion a chymunedau rhag trais difrifol a chamfanteisio, gan ganolbwyntio ar fynd ar drywydd troseddwyr a'u hatal wrth roi sicrwydd a hyder i gymunedau adrodd am unrhyw bryderon.

**20.2** Nododd yr adolygiad hwn achosion o ymosodiadau difrifol a throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau nad oedden nhw'n cael eu hadrodd neu'n cael eu symud ymlaen drwy'r broses gyfreithiol oherwydd diffyg tystiolaeth o ganlyniad i amharodrwydd tystion a dioddefwyr i gymryd rhan yn y broses ymchwilio.

**Argymhelliad 2** - Mae'n rhaid i Heddlu De Cymru fodloni'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol bod y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud ag adran 28 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn ogystal â mesurau amddiffyn tystion, a gyflwynwyd i amddiffyn dioddefwyr a thystion troseddau treisgar sy'n ddiamddiffyn ac sy'n cael eu bygwth, yn cael eu defnyddio'n gyson. Yn ogystal, mae angen sefydlu'r rhwystrau i ddiffyg ymgysylltu er mwyn nodi p'un ai yw'r mesurau amddiffyn presennol sydd ar waith yn rhoi digon o sicrwydd i ganiatáu i dystion sy'n ofnus a thystion sy'n cael eu bygwth fod eisiau cymryd rhan mewn ymchwiliadau.

Bydd hyn naill ai'n cefnogi bod y mesurau deddfwriaethol presennol yn ddigonol ac yn ddigon effeithiol i gefnogi ymgysylltiad tystion sy'n ddiamddiffyn ac sy'n cael eu bygwth drwy ymchwiliadau neu bydd yn nodi'r angen i uwchgyfeirio'r pryder a nodwyd drwy Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i'r Swyddfa Gartref i adolygu a chryfhau'r mesurau o dan y ddeddfwriaeth.

**20.3** Mae'r adolygiad hwn wedi nodi lefelau cymharol uchel o droseddau treisgar, a bod Llinellau Cyffuriau a Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn symud i mewn ac yn gweithredu yn yr ardal leol.

**Argymhelliad 3** – Dylid ystyried ehangu Cynllun Llywio'r Ysbyty gan yr Uned Atal Trais (VPU) yn yr Adran Achosion Brys leol i gefnogi dioddefwyr unigol anafiadau difrifol.

Bydd hyn yn sicrhau ymyrraeth a chymorth fwy cadarn a chyflymach i ddioddefwyr troseddau treisgar difrifol a chamfanteisio. Yn yr un modd ag y mae'n gweithredu yn ardaloedd y ddinas, sy'n cael ei gydnabod fel arfer da.

**20.4** Mae'r Adolygiad hwn wedi nodi bod gan Brifysgol De Cymru doreth o adnoddau a gwasanaethau cymorth ar gael yn fewnol i fyfyrwyr, fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod pob myfyriwr a gweithiwr proffesiynol eraill yn ymwybodol o'r cymorth sylweddol sydd ar gael.

**Argymhelliad 4** – PDC i barhau i weithio gydag Iechyd, gan gynnwys meddygon teulu lleol a'r Heddlu i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella ymgysylltiad â'r adnoddau sydd ar gael a chymorth i fyfyrwyr. Bwriedir hwyluso hyn gan rwydweithiau, partneriaethau a chytundebau presennol a rhai newydd a all adolygu deunyddiau a mecanweithiau presennol a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr a chodi ymwybyddiaeth o gamddefnyddio cyffuriau, cogio, troseddau cyllyll a dyled.

Mae hyn yn rhoi cyfle i Brifysgol De Cymru adolygu a gwerthuso faint o wybodaeth sydd gan fyfyrwyr am wasanaethau a chymorth a bydd yn galluogi iechyd a'r heddlu fel ei gilydd i ddeall ymyrraeth a chymorth Prifysgol De Cymru sydd ar gael i fyfyrwyr, gan alluogi dull mwy cyfannol o ddiogelwch cymunedol. Mae hyn yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol a'i fwriad yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynd ati i chwilio am gyngor a chymorth os oes angen.

**20.5** Cydnabuwyd yn yr adolygiad hwn fod amgylchiadau penodol o amgylch myfyrwyr prifysgol sy'n cynyddu'r agoredrwydd i weithgarwch anghyfreithlon, fel defnyddio a chyflenwi cyffuriau.

**Argymhelliad 5 -** Dylai Prifysgol De Cymru ac Undeb y Myfyrwyr barhau i adolygu a gwerthuso'r dulliau presennol o fonitro risg a'r potensial ar gyfer troseddoldeb a chyflenwi cyffuriau'n anghyfreithlon ar y safle.

Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl ddulliau'n gadarn ac yn lleihau ymhellach y risg o droseddu a chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon i fyfyrwyr a allai fod yn teimlo'n agored i niwed.

**20.6** Gallai ymateb mwy cadarn gan Ddarparwyr Tai Cymdeithasol fod wedi nodi pryderon mewn perthynas â'r eiddo a pha mor agored i niwed yw'r tenant o ran bod yn ddioddefwr camfanteisio.

**Argymhelliad 6** – Dylai'r darparwyr Tai Cymdeithasol adolygu ac adnewyddu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff rheng flaen, i sicrhau eu bod yn effro i'w prosesau a gweithdrefnau i dynnu sylw at bryderon o ran eiddo a nodi arwyddion potensial sy'n gwneud tenantiaid yn agored i niwed a/neu mewn perygl o gael eu camfanteisio a/neu gogio.

**Argymhelliad 7** – Dylai'r darparwyr Tai Cymdeithasol gynnal adolygiad ac archwiliad o wiriadau eiddo a gwiriadau cynnal a chadw i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn rheolaidd i dynnu sylw at y pryderon hyn.

Bydd hyn yn uwchsgilio ac yn datblygu staff presennol ac yn sicrhau bod prosesau ar waith i ddiogelu tenantiaid agored i niwed rhag camfanteisio o'r fath. Bydd y gwiriadau cynnal a chadw ar yr eiddo yn helpu i liniaru rhywfaint o'r bregusrwydd hwnnw a chadw at safonau derbyniol.

**20.7** Nodwyd yn yr adolygiad hwn y bydd unigolion yn 'hunanfeddyginiaethu' pan fyddan nhw'n dangos symptomau cyflwr, sef ADHD yn yr achos hwn, ac yn cael trafferth cael diagnosis ffurfiol.

**Argymhelliad 8 -** Bwrdd Iechyd CTM a PDC i gydweithio i wella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol i gefnogi unigolion sy'n arddangos symptomau ADHD orau gyda'r bwriad o sicrhau diagnosis amserol a lleihau ymddygiadau camaddasol.

Bydd hyn yn datblygu ac yn uwchsgilio staff yn y meysydd hyn, gan ganiatáu ymateb a dealltwriaeth well i unigolion ag ymddygiadau a strategaethau ymdopi camaddasol, gan sicrhau ymyrraeth fwy gwybodus.

**20.8** Yn absenoldeb categori penodol ar gyfer camfanteisio yn y Gweithdrefnau Statudol Amddiffyn Plant ac Oedolion, er y disgwylir nad oes modd i unrhyw un gytuno i gael ei gamfanteisio. Wrth nodi oedolyn sydd mewn perygl, efallai y byddai tybiaeth yn cael ei wneud fod gan yr oedolyn alluedd neu ei fod wedi cydsynio ac felly na fyddai o bosibl yn cael ei nodi fel 'mewn perygl', a allai effeithio ar gyfleoedd i wneud penderfyniadau ac i ddiogelu.

**Argymhelliad 9 -** Dylai Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ddatblygu canllaw ymarfer i ymdrin â phob math o gamfanteisio ar oedolion. Bydd hyn yn cefnogi'r Canllawiau Statudol ar gyfer Diogelu Oedolion i'w mabwysiadu gan bob un o'r byrddau diogelu.

Bydd hyn yn rhoi canllawiau i ymarferwyr i gymhwyso dull cadarn a chyson i ddigwyddiadau sydd wedi'u hadrodd neu nodi camfanteisio sy'n cynnwys oedolion, gan wella cyfleoedd i ddiogelu ac amddiffyn dioddefwyr a nodwyd sy'n oedolion.

**20.9** Nododd yr adolygiad hwn fod myfyrwyr yn defnyddio canabis i helpu i dawelu eu meddyliau neu i'w helpu i gysgu, fodd bynnag, oherwydd ffurfiau cryfder uchel o ganabis, gallai hyn gael yr effaith groes yn ogystal â gwaethygu cyflyrau iechyd meddwl sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 10** – Bydd Bwrdd Iechyd CTM yn gweithio gyda’r Brifysgol i sicrhau bod ganddyn nhw adnoddau sy’n cefnogi ac yn addysgu myfyrwyr sydd o bosibl yn defnyddio canabis, er mwyn sicrhau eu bod nhw’n ymwybodol o’r effaith y gall ei chael ar eu hiechyd meddwl.

Bydd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gael gwybod yn llawn am yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio canabis gyda'r nod o atal unigolion gan ganiatáu iddyn nhw wneud penderfyniadau gwybodus a chyda'r nod o atal myfyrwyr rhag ei defnyddio, gan arwain at ffyrdd o fyw iachach ac iechyd meddwl gwell.

Pan fo'r ADUS yn bodloni'r meini prawf o ran Lladdiad ag Arf Ymosodol, fel y nodir yn Adran 28 (2) a (3), pan ystyrir y gallai fod yn briodol i berson roi camau gweithredu ar waith mewn cysylltiad â'r gwersi hynny a ddysgwyd, nodwch a ydynt wedi hysbysu'r person hwnnw - ni ddylid cynnwys manylion personol. (Gweler adran 7.13 o ganllawiau statudol Adolygiadau o Laddiad ag Arf Ymosodol).
Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.

**21 Lledaenu'r dysgu**

Rhestr o dderbynwyr a fydd yn cael copïau o Adroddiad yr Adolygiad (yn unol â Chanllawiau Statudol ADUS ac yn sgil argymhellion yr Adroddiad):
Copïwch a gludwch y nifer priodol o achosion.

Dyddiad dosbarthu i arweinwyr polisi perthnasol: 15.04 2025

| **Sefydliad** | **Do** | **Naddo** | **Rheswm** |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Diogelu CTM | ☒ | ☐ | Cliciwch yma er mwyn teipio. |
| Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) | ☒ | ☐ | Cliciwch yma er mwyn teipio. |
| Adolygiad Diogelu Unedig Sengl | ☒ | ☐ | Cliciwch yma er mwyn teipio. |
| Rhentu Doeth Cymru | ☒ | ☐ | Cliciwch yma er mwyn teipio. |
| Redthread | ☒ | ☐ | Cliciwch yma er mwyn teipio. |
| WMSB | ☐ | ☐ | I'w rannu ar ôl ei gyhoeddi. |
| Prifysgol De Cymru | ☒ | ☐ | |
| Y Swyddfa Gartref | ☒ | ☐ | |

| |
|---|
| **22 Y broses ADUS**<br><br>Yn gryno, dylid cynnwys:<br>• Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu<br>• Digwyddiad Dysgu wedi'i gynnal a'r gwasanaethau a oedd yn bresennol<br>• Aelodau'r teulu wedi cael gwybodaeth, ceisiwyd eu barn a chawsant eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu. Rhoddwyd adborth iddynt pan oedd hynny'n briodol. Pan nad oedd hynny'n briodol, dylid bod wedi rhoi eglurhad.<br><br>Mae'r ardal hon wedi'i chynnwys rhwng adrannau 9 hyd at 16 o'r adroddiad hwn. |
| **23 Gwiriad terfynol**<br><br>Mae'r Adroddiad hwn wedi'i wirio i sicrhau bod y broses ADUS wedi'i dilyn yn gywir a bod yr Adroddiad wedi'i gwblhau fel y nodir yn y canllawiau statudol.<br><br>Rydw i'n cadarnhau bod yr adran hon o'r Adroddiad o safon sy'n barod i'w chyhoeddi ☒ |

| | |
|---|---|
| **A yw'r Adroddiad hwn yn cynnwys agweddau sy'n bodloni'r gofynion a ganlyn ar gyfer cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig?**<br><br>*Mae marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi digwydd, neu'n ymddangos ei bod wedi digwydd, o ganlyniad i drais, camdriniaeth, neu esgeulustod gan—*<br>*a) person y mae'n perthyn iddo neu yr oedd mewn perthynas agos ag ef, neu*<br>*b) aelod o'r un aelwyd.*<br><br>Os mai 'ydy' yw'r ateb, ar ôl ei gwblhau a'i gadarnhau gan Gadeirydd y Bwrdd Diogelu ac mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, rhaid anfon Adroddiad yr ADUS i sylw Panel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref. | ☐ |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad y derbyniwyd yr wybodaeth: Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu dyddiad.

Dyddiad yr anfonwyd llythyr cydnabod i Gadeirydd y Bwrdd: Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu dyddiad.

Dyddiad rhannu ag arolygiaethau perthnasol/Arweinwyr Polisi: Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu dyddiad.

| Asiantaethau | Do | Naddo | Rheswm |
|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | ☐ | ☐ | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun . |
| Estyn | ☐ | ☐ | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun . |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) | ☐ | ☐ | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun. |
| Arolygydd Heddlu ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun . |
| Arolygydd Gwasanaeth Prawf ei Fawrhydi | ☐ | ☐ | Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun . |

## 24 Datganiadau Annibyniaeth

| **Datganiad Annibyniaeth gan yr Adolygydd/Adolygwyr:**<br><br>Darllenwch a llofnodwch y datganiad a ganlyn. Cyn cwblhau'r adran hon, rhowch sylw i'r adran ar annibyniaeth yng Nghanllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.<br>Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol \| LLYW.CYMRU |
|---|
| **Adolygydd 1: Wendi Briggs** |
| **Datganiad annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad terfynol o ran cymhwysedd*<br><br>Rwy'n datgan, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, fod y canlynol yn wir:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos nac wedi cael unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth dros yr achos .<br>• Rwy'n meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol er mwyn cynnal yr adolygiad. Rwyf felly'n bodloni'r meini prawf Cadeirydd / Adolygydd Cymeradwy.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi gwersi a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai i ymarferwyr neu asiantaethau.<br>• Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn briodol. |
| Pan fo Lladdiad Domestig wedi digwydd, amlinellwch isod sut ydych chi'n bodloni paragraff 37 o Adran 4 o'r *Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiad Domestig* (Saesneg yn unig)<br><br>*Arweiniad: Eglurwch annibyniaeth yr Adolygydd a rhowch fanylion am hanes ei yrfa a'i brofiad perthnasol. Cadarnhewch nad yw'r Adolygydd wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os yw wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn flaenorol nodwch pa bryd y daeth y gyflogaeth honno i ben:*<br><br>Cliciwch yma i ychwanegu testun. |
| **Llofnod:** W Briggs<br>**Enw: Wendi Briggs**<br>**Dyddiad:** 14/03/2025 |

| |
|---|
| **Datganiad o Annibyniaeth gan yr Adolygydd/Adolygwyr:**<br><br>Darllenwch a llofnodwch y datganiad canlynol. Rhowch sylw i'r adran ar annibyniaeth yng Nghanllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl cyn llenwi. Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol \| LLYW.CYMRU |
| **Adolygydd 2: Kirsty McDowell** |
| **Datganiad annibyniaeth o'r achos**<br>*Datganiad terfynol o ran cymhwysedd*<br><br>Rwy'n datgan, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, fod y canlynol yn wir:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos nac wedi cael unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth dros yr achos .<br>• Rwy'n meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol er mwyn cynnal yr adolygiad. Rwyf felly'n bodloni'r meini prawf Cadeirydd / Adolygydd Cymeradwy.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi gwersi a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai i ymarferwyr neu asiantaethau.<br>• Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn briodol. |
| Pan fo Lladdiad Domestig wedi digwydd, amlinellwch isod sut ydych chi'n bodloni paragraff 37 o Adran 4 o'r *Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiad Domestig* (Saesneg yn unig)<br><br>*Arweiniad: Eglurwch annibyniaeth yr Adolygydd a rhowch fanylion am hanes ei yrfa a'i brofiad perthnasol. Cadarnhewch nad yw'r Adolygydd wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os yw wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn flaenorol nodwch pa bryd y daeth y gyflogaeth honno i ben:*<br><br>Cliciwch yma i ychwanegu testun. |
| **Llofnod:** K McDowell<br>**Enw: Kirsty McDowell**<br>**Dyddiad:** 14/03/2025 |

| |
|---|
| **Datganiad Annibyniaeth gan Gadeirydd y Panel Adolygu:**<br>Darllenwch y datganiad canlynol a llofnodwch isod. Rhowch sylw i'r adran ar annibyniaeth yng Nghanllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl cyn llenwi. Adolygiad Diogelu Unedig Sengl: canllawiau statudol \| LLYW.CYMRU<br><br>*Datganiad terfynol o ran cymhwysedd*<br><br>Rwy'n datgan, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn, fod y canlynol yn wir:<br>• Nid wyf wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos nac wedi cael unrhyw reolaeth neu oruchwyliaeth dros yr achos.<br>• Rwy'n meddu ar y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant priodol er mwyn cynnal yr adolygiad. Rwyf felly'n bodloni'r meini prawf Cadeirydd / Adolygydd Cymeradwy.<br>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac yn drylwyr o ran dadansoddi a gwerthuso'r materion fel yr amlinellir yn y Cylch Gorchwyl. Rwy'n cydnabod mai diben hyn yw nodi gwersi a ddysgwyd o'r achos, nid priodoli bai i ymarferwyr neu asiantaethau.<br>• Rwyf wedi darllen a deall y 7 Egwyddor Nolan a byddaf yn eu cymhwyso yn briodol. |
| Pan fo Lladdiad Domestig wedi digwydd, amlinellwch isod sut ydych chi'n bodloni paragraff 37 o Adran 4 o'r Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiad Domestig (Saesneg yn unig).<br><br>*Arweiniad: Eglurwch annibyniaeth Gadeirydd y Panel Adolygu a rhowch fanylion am hanes ei yrfa a'i brofiad perthnasol. Cadarnhewch nad yw Cadeirydd y Panel Adolygu wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Os yw wedi gweithio i unrhyw asiantaeth yn flaenorol nodwch pa bryd y daeth y gyflogaeth honno i ben:*<br><br>Cliciwch yma i ychwanegu testun. |
| **Llofnod**: S Hurley<br>**Enw: Susan Hurley**<br>**Dyddiad:** 14/03/2025 |

## 25 Aelodau'r Panel Adolygu

(Dilëwch os nad yw'n berthnasol)

Nifer o weithiau y mae’r Panel wedi cyfarfod: Cliciwch neu tapiwch yma i ychwanegu testun.

| **Rôl a theitl swydd** | **Asiantaeth** | **Annibyniaeth wedi’i chadarnhau** |
|---|---|---|
| Rheolwr Partneriaeth Cymunedau Diogel | Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf | ☒ |
| Pennaeth Partneriaethau | Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf | ☒ |
| Pennaeth yr Uned Lleihau Trais | Uned Atal Trais | ☒ |
| Pennaeth Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf | ☒ |
| Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg | ☒ |
| Rheolwr Adolygiadau Statudol | Heddlu De Cymru | ☒ |
| Swyddog Adolygu | Heddlu De Cymru | ☒ |
| Uwch Swyddog Ymchwilio | Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr | ☒ |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr | Prifysgol De Cymru | ☒ |
| Rheolwr Materion Busnes | Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg | ☒ |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol | Trivallis, Tai | ☒ |
| Rheolwr Gweithrediadau | Rhentu Doeth Cymru | ☒ |
| Cydlynydd Lleihau Niwed | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf / Bwrdd Cynllunio Materion Camddefnyddio Sylweddau Ardal | ☒ |
| Rheolwr y Gwasanaeth | Darparwr Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau | ☒ |

## 26 Cylch Gorchwyl

**Tasgau craidd**

- Penderfynu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau’r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio'r gweithio'n rhyngasiantaethol a'r darpariaeth gwasanaeth ar gyfer yr unigolyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Ymdrechu i geisio cyfraniadau aelodau priodol o'r teulu i'r adolygiad a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd. Cytunodd y panel hefyd y dylid caniatáu i rieni'r ymadawedig roi ffugenw i'w mab at ddiben yr adroddiad.
- Yn ogystal, ymdrechu i geisio cyfraniadau gan brif unigolion gan gynnwys yr holl droseddwyr ac unrhyw dystion a nodwyd i'r digwyddiad a arweiniodd at yr adolygiad hwn.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau, adolygiadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos gan sicrhau, lle mae achosion troseddol, y dylai'r Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol symud ymlaen mewn ffordd nad yw'n peryglu uniondeb yr ymchwiliad troseddol na'r achos cyfiawnder troseddol, nac yn ei danseilio.
- Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr a nodi'r adnoddau angenrheidiol i ganfod pa wersi sydd i'w dysgu o'r digwyddiad.
- Mae'r adolygiad hwn wedi nodi cysylltiad posibl â grŵp troseddu cyfundrefnol. Cytunodd aelodau’r panel fod cyfrifoldeb i ddiogelu hunaniaeth unrhyw droseddwr a allai fod wedi cytuno i gyfrannu at y broses adolygu hon. Y rheswm yw bod risg bosibl o niwed iddyn nhw gan berson/personau eraill. O ganlyniad, er mwyn dileu'r risg, cyfeirir at droseddwyr gyda'r rhagddodiad P (Troseddwr/'Perpetrator') ac yna rhif.
- Llunio adroddiad o ganfyddiadau'r adolygiad.
- Nodi'n glir mewn cynllun gweithredu beth yw'r gwersi, o fewn asiantaethau a rhyngddynt, sut y byddant yn eu rhoi ar waith, yr amserlenni ar gyfer gwneud hynny a'r hyn y disgwylir iddo newid o ganlyniad.

    - Cymhwyso'r gwersi hyn i ymatebion y gwasanaeth gan gynnwys newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau fel y bo'n briodol;

    - Gwella deilliannau yn y dyfodol i ddiogelu dioddefwyr a rhoi cymorth i droseddwyr ac Atal Lladdiadau ag Arfau Ymosodol trwy wella gweithio o fewn asiantaethau a rhwng asiantaethau.
    - Amlygu ymarfer da.

**Yn ogystal â'r broses adolygu, dylid ystyried y canlynol:**

- A oedd hanes neu wybodaeth berthnasol flaenorol am yr unigolyn a oedd yn wynebu risg a/neu aelodau'r teulu yn hysbys ac yn cael ei hystyried wrth i weithwyr proffesiynol gwblhau asesiadau, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r oedolyn a oedd yn wynebu risg, y teulu, a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd yr wybodaeth honno at y canlyniad i'r unigolyn a oedd yn wynebu risg.
- A oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r unigolyn a oedd yn wynebu risg yn gadarn ac yn briodol ar gyfer y person hwnnw a'i amgylchiadau.
- A roddwyd camau gweithredu ar waith, eu monitro a'u hadolygu yn effeithiol ac a wnaeth pob asiantaeth gyfrannu'n briodol at ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y camau gweithredu a weithiodd yn dda a'r rhai na weithiodd cystal, a'r rhesymau dros hynny. I ba raddau yr heriodd asiantaethau ei gilydd ynghylch effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd o ran y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr unigolyn a oedd yn wynebu risg. A roddwyd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol ar waith.
- A gafodd priod ddyletswyddau statudol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r unigolyn a oedd yn wynebu risg a'r teulu eu cyflawni.
- A oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn a oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

**Tasgau penodol y Panel Adolygu**

- Nodi a chomisiynu adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r Panel Adolygu yn unol â'r canllawiau.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, creu llinell amser a chrynodeb cychwynnol o achosion a nodi unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes wedi'u cymryd.
- Llunio llinell amser gyfun ar bob un o'r 7 unigolyn sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn, dadansoddiad cychwynnol, a rhagdybiaethau.
- Cynllunio digwyddiad neu ddigwyddiadau dysgu ar gyfer ymarferwyr gyda'r adolygydd/adolygwyr, gan gynnwys nodi mynychwyr (y mae'n rhaid eu bod wedi ymwneud ag un o'r 7 person a oedd yn rhan o'r adolygiad hwn o'r blaen neu wedi bod yn rhan o wneud penderfyniadau yn ei gylch) a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u helpu cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth. Mae disgwyl i fanylion y mynychwyr gael eu llunio yn ail gyfarfod y panel.
- Cynllunio gyda'r adolygydd / adolygwyr drefniadau cyswllt â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr ADUS er mwyn sicrhau bod y Cylch Gorchwyl wedi'i fodloni, bod sylw wedi'i roi i'r rhagdybiaethau cychwynnol, a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn iddo gael ei gyhoeddi.

**Meysydd Canolbwynt Ychwanegol**

- Gyda'r bwriad o'i ddeall yn well, cynnwys diwylliant Gangiau Troseddu Cyfundrefnol a'r potensial ar gyfer diogelu'r rhai sy'n gysylltiedig er mwyn nodi unrhyw rwystrau.
- Deall o'r achos hwn oblygiadau a graddfa ymdreiddiad camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon o fewn y cymunedau ac unrhyw fesurau atal neu gymorth rheoli o'i amgylch.
- Nodi a oes arwyddion o gamfanteisio troseddol ymhlith unigolion sy'n ymddangos yn yr adolygiad hwn.
- A yw ymchwiliadau a threfniadau rhannu gwybodaeth drawsffiniol yn ddigon cadarn i reoli'r risgiau?
- A oes cysylltiadau wedi'u nodi rhwng y teimlad o ynysigrwydd oherwydd diffyg ffrindiau a theulu sy'n arwain at fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o adref yn dod yn agored i niwed ac yn agored i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon? Sut mae hyn yn cael ei nodi a pha ddarpariaethau sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r unigolion hynny?
- A oes unrhyw enghreifftiau o arfer rhagorol neu arloesol yn deillio o'r achos hwn?
- Tynnu sylw at unrhyw newidiadau perthnasol mewn arfer sydd wedi digwydd mewn unrhyw sefydliad ers yr adeg hon o'r digwyddiad a allai fod wedi arwain at ganlyniad gwahanol.

**Cyfnod amser ar gyfer yr Adolygiad o Laddiad ag Arf Ymosodol**

Y cyfnod amser a osodwyd ar gyfer yr Adolygiad yw o 18 Awst 2022 hyd at ddyddiad ei farwolaeth.

Bydd asiantaethau'n darparu adroddiadau cryno o unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol a ddigwyddodd cyn neu ar ôl y dyddiad hwn. Yn y crynodebau hyn, byddai'n fuddiol tynnu sylw at unrhyw newidiadau mewn polisi, gweithdrefn neu arfer sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn.

**Sesiwn ddysgu**

Bydd y sesiwn ddysgu yn sicrhau bod llais ymarferwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr adolygiad a bod modd i ymarferwyr glywed safbwyntiau'r teulu ac unigolion perthnasol eraill. Mae disgwyl i ymarferwyr a rheolwyr fod yn bresennol os ydyn nhw'n cael gwahoddiad. Bydd pob ymarferydd yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd ac yn nodi'r hyn sydd wedi'i ddysgu er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol.

Mae'r Panel Adolygu yn gyfrifol am gynorthwyo'r adolygwyr i gynnal sesiwn ddysgu effeithiol.

Ar y dechrau, rhagwelwyd y byddai'r sesiwn ddysgu yn cael ei gynnal ar 25 Medi 2024. Fodd bynnag, gan fod yr achos troseddol yn hyn o beth wedi dod i ben gyda'r dedfrydu'n digwydd ar 26 Medi, teimlwyd y dylid symud y sesiwn ddysgu i 15 Hydref 2024.

**Dyddiad Cwblhau**

Y dyddiad targed ar gyfer cwblhau sydd wedi'i bennu ar gyfer yr Adolygiad yw mis Mawrth 2025.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu**

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Sicrhau bod y Panel Adolygu yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Anfon yr adroddiad i asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo, a chyn iddo gael ei gyhoeddi, ei gyflwyno ar y cyd â'r cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru (ac o ran achosion o Laddiad Domestig, i'r Swyddfa Gartref).
- Cadarnhau trefniadau i'r Is-Grŵp Adolygu reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y bydd gwelliannau disgwyliedig i'r gwasanaeth yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio'r gwaith cyhoeddi ar wefan y Bwrdd a gwefan Hwb Cydgysylltu ADUS a'i gyflwyno i'r storfa Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl.
- Cytuno i ledaenu'r dogfennau i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl sylwadau cyhoeddus ac ymatebion i ddiddordeb y cyfryngau yn ymwneud â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

Pan fydd yr ADUS yn cynnwys Lladdiad Domestig, cyfeiriwch at y canllawiau yn ymwneud â'r Cylch Gorchwyl yn y *Canllawiau Statudol Amlasiantaethol ar gyfer cynnal Adolygiadau Lladdiad Domestig (2016)*[14].

[i] https://www.kirkleessafeguardingchildren.co.uk/wp-content/uploads/2022/09/Debt-Bondage-in-a-Criminal-Exploitation-and-County-Lines-context-A-support-resource-for-professionals.pdf

[14] Canllawiau Statudol Amlasiantaethol (Saesneg yn unig)